

# Arolwg Sicrwydd Arbennig Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Ionawr 2007**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850  
Ffacs: 029 2092 8877

[www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN 0 7504 9091 8

Ionawr 2007  
CMK-22-04-030(039)

Cysodwyd mewn teip 14pt  
© Hawlfraint y Goron 2007

# CYNNWYS

	Rhif Tud.
<b>Pennod 1: Cefndir .....</b>	<b>1</b>
<b>Pennod 2: Trefniadau'r Adolygiad .....</b>	<b>7</b>
<b>Pennod 3: Llywodraethu Clinigol yn yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans .....</b>	<b>9</b>
<b>Ymwneud y Cyhoedd a Chleifion .....</b>	<b>11</b>
<b>Profiad y Cleifion.....</b>	<b>13</b>
<b>Defnyddio Gwybodaeth .....</b>	<b>23</b>
<b>Prosesau Gwella Ansawdd.....</b>	<b>27</b>
<b>Canoli ar Staff .....</b>	<b>32</b>
<b>Arweinyddiaeth, Strategaeth a Chynllunio .....</b>	<b>37</b>
<b>Pennod 4: Asesu gallu YGAC i wella deilliannau i gleifion.....</b>	<b>43</b>
<b>Pennod 5: Digwyddiad a effeithiolrwydd yr Ymddiriedolaeth i adrodd am ddigwyddiadau a'r systemau 2003. ....</b>	<b>49</b>
<b>Pennod 6: Crynodeb o'r Argymhellion .....</b>	<b>57</b>
<b>Atodiad A: Esboniad o asesiadau CGI.....</b>	<b>61</b>
<b>Atodiad B: Esboniad o risgiau absoliwt a pherthnasol .....</b>	<b>62</b>
<b>Atodiad C: Rhestr o Orsafoedd Ambiwlans YGAC yr Ymwelwyd â Hwy .....</b>	<b>63</b>
<b>Atodiad D: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.....</b>	<b>64</b>
<b>Atodiad E: Geirfa Termau.....</b>	<b>66</b>
<b>Diolchiadau .....</b>	<b>71</b>



## **Pennod 1: Cefndir**

1.1. Daeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i fodolaeth ar 1 Ebrill 2004. Ei rôl yw cynnal arolygiadau ac ymchwiliadau i gyrff gofal iechyd yng Nghymru. Nod AGIC yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd y GIG a rhai annibynnol. Yn hyn o beth, mae ganddynt gyfrifoldeb i olrhain problemau a ddigwyddodd yn y gorffennol er mwyn gofalu yr ymdriniwyd yn effeithiol â'r anawsterau hyn er lles y gwasanaeth, cleifion a'r cyhoedd<sup>1</sup>.

### **Y Cynnig i Adolygu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru**

1.2. Daeth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (YGAC) at AGIC ym mis Rhagfyr 2005 gyda chais i gynnal adolygiad ffurfiol o'i pholisïau a gweithdrefnau Gwasanaethau Gofal Cleifion (GGC). Canlyniad oedd hyn i ddigwyddiad yn 2003 pan gludwyd claf yn ne ddwyrain Cymru i'r cyfeiriad anghywir a'i gadael yno ar ei phen ei hun. Bu canlyniadau trasig i'r digwyddiad a chynhaliwyd ymchwiliad mewnol gan yr Ymddiriedolaeth. Bu hefyd yn destun ymchwiliad allanol a gomisiynwyd gan Swyddfa Ranbarthol De Ddwyrain Cymru o Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn sgil hyn, erlynwyd yr Ymddiriedolaeth, ynghyd ag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Plediodd y ddwy Ymddiriedolaeth yn euog ac fe'u dirwywyd.

1.3. Cytunodd AGIC i gynnal adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau GGC diwygiedig YGAC ac effeithiolrwydd y newidiadau a gyflwynwyd ers y digwyddiad yn 2003. Fodd bynnag, yn y cyfamser, cafwyd digwyddiad annisgwyl arall yn ne ddwyrain Cymru. Yn ffodus, ni chafodd hyn ganlyniadau difrifol na thrasig i'r claf dan sylw, ond fe wnaeth, serch hynny, godi cwestiwn ynglŷn â pha mor ddigonol oedd polisïau a threfniadau gweithredu GGC

---

<sup>1</sup> Gweler Atodiad D am ddisgrifiad llawn o ddyletswyddau a chyfrifoldebau AGIC.

diwygiedig YGAC. O ganlyniad, cyhoeddodd AGIC eu bwriad i gynnal Adolygiad Sicrwydd Arbennig o'r Ymddiriedolaeth fel rhan o'u rhaglen adolygu yn 2006-07, a fyddai'n cynnwys GGC ac archwiliad ehangach o lywodraethu clinigol. Yn ystod cyfnod bwrw ymlaen â'r cynllunio ar gyfer yr ymarferiad arbennig, cododd Prif Weithredwr dros dro yr Ymddiriedolaeth ar y pryd nifer o faterion yn gyhoeddus ynghylch perfformiad yr Ymddiriedolaeth. Ymysg y materion hyn yr oedd amcangyfrif fod hyd at 500 o farwolaethau y flwyddyn yn deillio o aneffeithlonrwydd a diffyg effeithiolrwydd yr Ymddiriedolaeth. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, adolygodd AGIC gylch gorchwyl eu Hadolygiad.

1.4. Sefydlwyd y Cylch Gorchwyl terfynol a'r rhai y cynhaliwyd yr adolygiad hwn danynt fel a ganlyn:

1. Gwerthuso a rhoi prawf ar ddata marwolaethau ac amser ymateb yn erbyn honiadau diweddar y collir 500 bywyd y flwyddyn o ganlyniad i amseroedd ymateb presennol ambiwlansys.
2. Adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw polisiau a gweithdrefnau Gwasanaethau Cludo Cleifion yr Ymddiriedolaeth a sut y gweithredwyd gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad yn 2003, a sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro hyn.
3. Rhoi prawf ar effeithiolrwydd gweithdrefnau a systemau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau.
4. Adolygu trefniadau llywodraethu clinigol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

1.5. Mae Pennod 2 yr adroddiad hwn yn gosod allan drefniadau'r Adolygiad. Mae Pennod 3 yn rhoi adroddiad am lywodraethu clinigol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth gan gynnwys GGC ac GMB. Wrth wneud hynny y mae'n ymdrin â materion yn ymwneud â pha mor ddigonol ac effeithiol yw polisiau a gweithdrefnau GGC ac yn ymchwilio i effeithiolrwydd systemau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau. Mae Pennod

4 yn trafod gwerthuso a rhoi prawf ar ddata marwolaethau ac amser ymateb yn erbyn honiadau diweddar y collir 500 bywyd y flwyddyn, ac y mae Pennod 5 yn ymdrin â sut y gweithredwyd gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiad penodol. Mae argymhellion yn y penodau perthnasol ac fe'u dygir ynghyd yn y bennod olaf.

1.6. Ochr yn ochr ag Adolygiad AGIC ac yn dilyn dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gwahoddwyd Archwiliwr Cyffredinol Cymru i gynnal ymchwiliad ynghylch YGAC. Symudodd yr Ymchwiliad ac Adolygiad AGIC Adolygiad ymlaen o fewn amserlenni tebyg. Gweithiodd tîm yr Ymchwiliad yn Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a'r staff sydd yn gyfrifol am Adolygiad AGIC ynghyd i leihau dyblygu yn eu gwaith cyhyd ag oedd modd. Pa fodd bynnag, i alluogi ac i roi hanes yr Ymddiriedolaeth a'i gwasanaethau yn gyflawn ym mhob ffordd mae'r adroddiad yn cyffwrdd a'r un pynciau ag Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol.

## **Yr Ymddiriedolaeth**

### ***Trefniadaeth***

1.7. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG (YGAC) trwy Offeryn Statudol ar 1 Ebrill 1998. Y mae'n darparu gwasanaethau ambiwlans a rhai cysylltiedig i'r 2.9 miliwn o boblogaeth sy'n byw yng Nghymru, wedi eu dosbarthu dros gyfanswm arwynebedd tir o 20,640 kilometr sgwâr. Hefyd, mae YGAC yn darparu gwasanaethau i nifer fawr o ymwelwyr ddaw i Gymru, yn enwedig ym misoedd yr haf.

1.8. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi ychydig dan 2,500 o bobl. O'r rhain cyflogir dros 76% ar y lefel weithredol; 1,310 ar ddyletswyddau ambiwlans brys a 693 ar wasanaethau ambiwlans heb fod yn frys a gwasanaethau cludiant ieuchyd.

1.9. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o nifer fawr o safleoedd ledled Cymru. Ymhlith y rhain y mae mwy na 90 o orsafoedd ambiwlans, pedair

Canolfan Reoli lle derbynnir galwadau ac yr anfonir ymateb, Coleg Hyfforddi Cenedlaethol a chanolfannau hyfforddi rhanbarthol cysylltiedig, Pencadlys yr Ymddiriedolaeth, tair Swyddfa Ranbarthol a phum gweithdy cynnal cerbydau.

1.10. Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan Fwrdd o Gadeirydd, pum Cyfarwyddwr Anweithredol, a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a phum Cyfarwyddwr Gweithredol. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am osod cyfeiriad polisi a strategol yr Ymddiriedolaeth, am fonitro perfformiad clinigol ac ariannol ac am ofalu bod amcanion yn cael eu cyrraedd ac y cynhelir safon uchel o lywodraethu corfforaethol ac ymddygiad proffesiynol.

1.11. Ers Ebrill 2003 Comisiwn Iechyd Cymru (CIC) fu'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaethau Meddygol Brys (GMB) i Gymru gyfan tra'r arhosodd comisiynu GGC yn fater i Ymddiriedolaethau GIG unigol.

1.12. Yn ystod 2005-2006, deliodd YGAC â 269,000 digwyddiad brys, 63,251 taith frys a chlododd 1,434,285 o gleifion heb fod yn rhai brys i dros 200 o ganolfannau triniaeth ledled Cymru a Lloegr.

### ***Hanes Diweddar***

1.13. Yn dilyn cyfnod o wyliau blynyddol yn Nhachwedd 2005 ni allodd Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth bryd hynny ddychwelyd i'w ddyletswyddau o ganlyniad i salwch. I ddechrau, ymgwymerodd y Dirprwy Brif Weithredwr â'r awenau fel Prif Weithredwr Dros Dro, ond penderfynwyd y dylid gwneud trefniadau eraill ar gyfer rôl Swyddog Atebol, a chymerwyd camau i benodi Prif Weithredwr Interim. Arweiniodd hyn at gyfnod o bedwar mis (Mawrth tan fis Gorffennaf 2006) pryd y bu dau Brif Weithredwr Interim yn eu tro yn gyfrifol am yr Ymddiriedolaeth.

1.14. Hefyd, daeth cyfnod Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn ei swydd i ben ar 31 Mawrth 2006 a daeth Cadeirydd newydd i'w swydd ar 1 Ebrill.

1.15. Gwnaed yr anawsterau a ddeuai i ran unrhyw sefydliad o ganlyniad i newidiadau lu o ran y bobl allweddol a'r ansicrwydd yn sgîl hynny yn arweinyddiaeth y sefydliad yn waeth gan anawsterau mewn mannau eraill yn strwythur reoli YGAC. Yr oedd nifer o swyddi rheoli uwch a chanol heb eu llenwi neu wedi eu llenwi trwy secondio staff o swyddi eraill yn YGAC. Effeithiodd salwch tymor hir ar nifer o'r swyddi hyn.

1.16. Bu penodi Cadeirydd newydd yr Ymddiriedolaeth ynghyd â phenodi'r darpar Brif Weithredwr newydd yn Awst 2006, a ddaeth i'w swydd ar 1 Hydref 2006, yn drobwynt i'r Ymddiriedolaeth. Mae cynllun moderneiddio wedi ei gynhyrchi, a rydym wedi tynnu sylw tuag ato drwy'r adroddiad hwn, ac fe'r ydym wedi darganfod bod yna deimlad cyffredinol o optimistiaeth am y dyfodol gan y staff sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth.



## **Pennod 2: Trefniadau'r Adolygiad**

### **Cynllun yr Adolygiad**

2.1. Cynlluniwyd y broses adolygu i ofalu y gallai AGIC ymwneud ag ystod eang o staff YGAC. Yr oedd y gwahaniaethau sylweddol rhwng rhanbarthau o ran topograffeg Cymru a'r modd yr adlewyrchir hynny yn nhrefniadaeth ranbarthol YGAC yn ystyriaethau allweddol. Hefyd, cydweithiodd AGIC gydag Ymchwiliad yr Archwilydd Cyffredinol i'r YGAC, gan fanteisio ar beth o'u gwaith yn ogystal â gwneud cyfraniadau i'r Ymchwiliad, a thrwy hynny leihau peth o'r dyblygu gwaith a allasai fod wedi rhoi baich ychwanegol ar YGAC. Lle rhoes Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol wybodaeth gefndir fanwl neu ddadansoddiad penodol o faterion, ni cheisiodd AGIC ail-adrodd y manylion hynny yn hyn o adroddiad.

2.2. Wedi gofyn i ddechrau ac wedi cynnal adolygiad o ddogfennau allweddol gan YGAC, cynhaliodd AGIC gyfweiliadau ffurfiol dros gyfnod o naw niwrnod ym mis Medi a Hydref 2006. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ym Mhencadlys yr Ymddiriedolaeth yn Llanelwy ac yn y Pencadlysoedd Rhanbarthol Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin yn Ysbyty Cefn Coed, y Cocyd ger Abertawe a De Ddwyrain Cymru ym Mamhilad. Cyfwelwyd 41 aelod staff a Bwrdd. Hefyd, ymwelodd AGIC ag adrannau Damwain ac Argyfwng (D&A) pump o ysbytai Ymddiriedolaethau'r GIG a phum adran cleifion allanol, lle cyfwelwyd staff yr ysbyty am brofiadau eu Hymddiriedolaeth hwy o YGAC. Hefyd, cyfwelwyd cleifion neu eu cynrychiolwyr.

2.3. Ochr yn ochr â'r cyfweiliadau ffurfiol, bu adolygwyr AGIC hefyd yn ymweld â 35 gorsaf ambiwlans dros gyfnod o 16 diwrnod. Talwyd ymweliadau ym mhob un o dri Rhanbarth yr Ymddiriedolaeth ac ag o leiaf un orsaf ambiwlans ym mhob un o siroedd Cymru. Yn ystod yr ymweliadau, medrodd yr adolygwyr arsylwi gwaith YGAC trwy deithio mewn cerbydau GMB a GGC wrth iddynt ymateb i alwadau brys neu gludo cleifion i glinigau

allanol. Yn ystod yr ymweliadau arsylwi medrodd yr adolygwyr drafod yn fwy anffurfiol brofiad staff YGAC a phrofiadau cleifion. Teithiodd yr adolygwyr mewn cyfanswm o 43 o gerbydau GGC ac 16 o gerbydau GMB ac yn ystod yr ymweliadau arsylwi siaradasant â 109 o aelodau criwiau. Cawsant gyfle hefyd i siarad ag aelodau staff eraill y gorsafoedd ambiwlans ar eu hymweliadau.

## **Pennod 3: Llywodraethu Clinigol yn yr Ymddiriedolaeth Ambiwylans**

3.1. Nod cyffredinol yr Adolygiad hwn oedd gofalu bod trefniadau llywodraethu clinigol ledled YGAC yn gwneud y canlynol:

- cydymffurfio â chanllawiau yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2003) 69 *Adroddiadau Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol 1 Ebrill 2002 i 31 Mawrth 2003 a Gofynion y Dyfodol a Chylchlythyr Iechyd Cymru Circular (2005) 040 Trefniadau Adrodd am Lywodraethu Corfforaethol*;
- arwain at welliant parhaus mewn gwasanaethau i gleifion;
- meithrin diwylliant o ansawdd a dysgu; a
- diogelu cleifion a staff.

3.2. Yn fwy penodol, ceisiodd yr Adolygiad weld i ba raddau yr ymdriniwyd â'r argymhellion angenrheidiol a nodwyd gan y blaenorol Comisiwn Gwella Iechyd (CGI). Dyma argymhellion allweddol y CGI:

1. *Rhaid i'r Ymddiriedolaeth weithredu i fynd i'r afael â gweledigaeth ehangach llywodraethu corfforaethol ledled y sefydliad, a gweithredu hynny. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth osod cyfeiriad strategol ar gyfer llywodraethu corfforaethol ac yn sylfaen i hyn, rhaid iddi gael strategaethau ar gyfer pob maes o lywodraethu corfforaethol. Rhaid i hyn gynnwys ymgynghori fel mater o drefn gyda phob graddfa o staff, cleifion a phartneriaid er mwyn gwneud yn siŵr fod llywodraethu corfforaethol wedi ei integreiddio'n llawn ar draws y sefydliad.*
2. *Dylai'r Ymddiriedolaeth ail gyflunio ei phwyllgorau a'i strwythurau llywodraethu corfforaethol i ofalu eu bod wedi integreiddio'n llawn gyda'r strwythur reoli weithredol, fel bod atebolrwydd mewn llywodraethu corfforaethol yn glir ar bob lefel yn y sefydliad.*

3. *Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sefydlu rhaglen o addysg i helpu staff o lefel y bwrdd i lawr i sicrhau fod llywodraethu corfforaethol wedi ei integreiddio a'i ddeall yn llawn yn yr ymddiriedolaeth drwyddi draw.*
4. *Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu faint o amser a neilltuir i arweinyddiaeth glinigol ar lefel strategol.*
5. *Rhaid i'r Ymddiriedolaeth weithredu ar frys i ehangu ei hagwedd strategol at reoli risg clinigol, a gofalu bod y gofrestr risg yn gweld y gwir risgiau clinigol sydd yn ymhlyg yn ei gweithrediadau beunyddiol, ac y cedwir llygad barcud ar y rhain.*
6. *Mae angen i'r Ymddiriedolaeth gynyddu ei defnydd o wybodaeth glinigol ac anghlinigol a datblygu dull o adrodd am ddigwyddiadau arferol ac anarferol er mwyn goflau bod polisïau yn cael eu gweithredu a bod newid ar sail o wybodaeth.*
7. *Rhaid i'r Ymddiriedolaeth hybu diwylliant o fod yn agored lle mae gweithgareddau llywodraethu corfforaethol yn arwain at fonitro, dosbarthu a dysgu ledled y sefydliad.*

3.3. Adolygodd AGIC y meysydd llywodraethu corfforaethol a ganlyn :

- profiad y cleifion:
- ymwneud cleifion a'r cyhoedd:
- defnyddio gwybodaeth:
- prosesau gwella ansawdd:
- canoli ar y staff: a
- arweinyddiaeth, strategaeth a chynllunio.

3.4. Y mae gweddill y bennod hon yn ymdrin â phob un o'r meysydd hyn yn eu tro, gyda chyfeiriadau at argymhellion y CGI fel sy'n briodol.

## Ymwneud y Cyhoedd a Chleifion

3.5. Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Ymwneud y Cyhoedd a Chleifion (YCCh) yn Ebrill 2004 yn dilyn adolygiad CGI yn gynharach y flwyddyn honno a chyfoeswyd Strategaeth YCCh am y cyfnod 2005-2009 ym mis Ionawr 2006. Y mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi sefydlu Is-Bwyllgor YCCh. Ei gyloch gorchwyl yw adolygu pob agwedd o brofiad y cyhoedd a chleifion a gofalu bod cyfleoedd ar gael i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Yn ein barn ni, yr oedd cylch gorchwyl yr Is-Bwyllgor YCCh yn briodol. Yr oedd ei lwybr adrodd trwy Bwyllgor Llywodraethu'r Bwrdd yn glir. Ymhellach, y mae drafft Cynllun Moderneiddio'r<sup>2</sup> Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda'r cyhoedd a chleifion ac yn ymrwmo'r Ymddiriedolaeth i bartneriaeth wrth gyflwyno ei gwasanaethau.

3.6. Adeg yr adolygiad hwn, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol oedd yn Arwain ar YCCh, ac wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb pan adawodd ddeiliad blaenorol y swydd yr Ymddiriedolaeth ym mis Awst 2006. Fodd bynnag nid oedd rhai o'r staff yn ymwybodol o'r newid hyn ac yr oedd y cofnod am bwy oedd yn gyfrifol am hyn yng nghanen YCCh Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn anghywir.

3.7. Y mae gan yr Ymddiriedolaeth gynrychiolaeth briodol o du Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) ar ei Bwrdd, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau. Fodd bynnag, y mae dibynnu bron yn gyfan gwbl ar y trefniadau hyn am ymwneud ffurfiol â'r cyhoedd a chleifion yn lleihau gallu'r Ymddiriedolaeth i glywed barn cleifion a'r cyhoedd yn uniongyrchol a gweithredu arnynt. Er y cynhaliwyd rhai arolygon cleifion ac y bu cyfle i ymwneud â'r cyhoedd yn ehangach, er enghraifft trwy hybu a datblygu'r cynlluniau 'Ymatebydd Cyntaf', y mae'n ymddangos nad yw'r penderfyniadau mawr ynghylch datblygu'r gwasanaeth

---

<sup>2</sup> Paragraff 1.6 o fersiwn 8 o 'Amser i Wneud Gwahaniaeth'

ambiwylans yng Nghymru wedi elwa o ymwneud yn rheolaidd â'r sawl y cynlluniwyd y gwasanaeth ar eu cyfer.

3.8. Gallu cyfyngedig sydd gan yr Ymddiriedolaeth i gael barn y cleifion y mae'n gofalu amdanynt a'r gymuned a wasanaetha. Canolbwyntiodd yr Ymddiriedolaeth bron yn gyfan gwbl ar dargedau yn ymwneud ag amser neu swm yr achosion cludo heb fod yn frys drwy wahardd y defnyddwyr i mewn i gynllunio'r gwasanaeth a gwneud penderfyniadau a allasai fod wedi helpu i ddatblygu ffyrdd o gyrraedd yr union dargedau hynny. Cyfeiriwn mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn at ddefnydd amhriodol o wasanaethau YGAC gan rai aelodau o'r cyhoedd. Gellir datrys hyn yn rhannol trwy ddarganfod ffyrdd o dynnu'r cyhoedd i mewn i fod yn rhan ac mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth.

3.9. Y mae lefel y gefnogaeth gan gymunedau lleol i'w gwasanaeth ambiwlans yn gryf, gydag aelodau'r cyhoedd yn rhoi yn hael i brynu cyfarpar i griwiau ambiwlans. Bu defnyddio hofrenyddion mewn ardaloedd gwledig anghysbell yn bendant yn llesol i gleifion trwy wneud cyrchu yn haws a lleihau amser cludo'r claf i'r ysbyty derbyn lleol. Fel yn Lloegr, daw cyfran helaeth o'r adnoddau ar gyfer y gwasanaethau hofrennydd sydd yn cefnogi YGAC o roddion elusennol gan bobl Cymru. Mae pobl Cymru yn fawr eu canmoliaeth i ansawdd y gwasanaeth wyneb yn wyneb a dderbyniant gan staff YGAC.

3.10. Nododd Strategaeth YCCh yr Ymddiriedolaeth bwysigrwydd parhau i ddatblygu a defnyddio arolygon i weld beth yw pryderon a blaenoriaethau'r cyhoedd. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth adeiladu mwy ar hyn, i ganfod ffyrdd o ddwyn y cyhoedd i mewn yn fwy ffurfiol i faterion datblygu a pherfformiad ac i harneisio adnoddau'r gymuned i helpu i ddod o hyd i atebion i rai o'r problemau mae'n wynebu.

***Argymhelliad 1: Dylid atgyfnerthu trefniadau YCCh yr Ymddiriedolaeth trwy adolygu prosesau'r Ymddiriedolaeth o ymwneud â chleifion a'r cyhoedd fel sail o wybodaeth i'w phrosesu gwneud penderfyniadau.***

## Profiad y Cleifion

3.11. Yn ddieithriad, bron, yr oedd cleifion a ddefnyddiodd YGAC yn canmol y modd yr oedd y staff rheng flaen yn eu trin. Yr oedd cleifion a gofalwyr y siaradwyd â hwy adeg yr adolygiad yn canmol gwaith caled ac ymroddiad staff rheng flaen y gwasanaethau brys a gofal cleifion fel ei gilydd. Gwelsom staff YGAC yn cyflawni eu dyletswyddau yn ddiwyd a gofalus. Cefnogwyd y farn hon gan ganlyniadau arolwg cleifion a gynhaliwyd yn 2003-04 a ddatgelodd, o 744 a ymatebodd, fod 97% yn cael y gwasanaethau a ddarparwyd gan YGAC yn foddhaol iawn, boddhaol neu gweddol foddhaol.

3.12. Gwelsom lawer o'r staff yn mynd allan o'u ffordd i wneud yn sicr fod cleifion yn derbyn lefelau eithriadol o ofal. Yr oedd dealltwriaeth dda rhwng staff a chleifion, yn enwedig gyda staff GGC oedd yn aml yn cludo'r un cleifion yn rheolaidd. Lle bo modd mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu'r un criw yn rheolaidd i gleifion sydd ag apwyntiadau rheolaidd mewn clinigau ac ymddengys bod manteision i hyn, yn enwedig lle mae'r cleifion mwyaf bregus dan sylw.

3.13. Fodd bynnag, waeth beth fo ymdrechion y staff rheng flaen i sicrhau fod cleifion yn cael gofal da, y mae'r amgylchedd ofal yn aml yn ddiffygiol o ran yr hyn y gellid ei ddisgwyl. Tanlinellwyd adroddiadau am ambiwlansys annigonol gan brofiad adolygwyr AGIC. Mae Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol yn ymdrin yn llawn â'r anawsterau mewn perthynas â'r fflyd GMB, ac yr ydym yn cadarnhau canfyddiadau'r Ymchwiliad hwnnw. Wedi dweud hynny, ar sail profiad uniongyrchol ein hadolygwyr ni parthed y cerbydau y buont yn teithio ynddynt, y mae cyfleusterau ar gyfer cleifion a gludir yng ngherbydau'r gwasanaeth brys yn gyffredinol yn well na'r rhai sy'n defnyddio GGC.

3.14. Teithiodd ein hadolygwyr mewn 43 o gerbydau GGC. Dyma rai o'u profiadau:

- y cerbydau a anfonwyd yn annigonol ar gyfer y math o gleifion oedd yn defnyddio'r gwasanaeth oherwydd yn rhannol bod gwybodaeth annigonol yn cael ei rhoi i staff GGC;
- anghysur cleifion mewn nifer o gerbydau; a
- amrywiaeth yn safonau glendid y cerbydau.

3.15. Hefyd cafwyd adroddiadau am anawsterau gyda chynnal y cerbydau.

3.16. Wrth gysgodi criwiau GGC daeth yn amlwg fod y GGC yn dioddef yn arbennig o gerbydau sy'n heneiddio. Y mae amgylchedd cludo'r cleifion yn llai na dymunol. Er bod y staff yn gwneud eu gorau i lanhau'r cerbydau, y mae rhai ohonynt yn fudr ac angen eu trwsio. Y mae'r ffenestri a'r lloriau yn rhai o'r cerbydau a ddefnyddir yn gollwng, a phan oedd yn bwrw glaw, yr oedd dŵr yn rhedeg i mewn trwy ffenestri'r cerbydau hyn i'r llawr. Cyfyngedig yw'r rheolaeth ar y tymheredd yn rhai cerbydau, fel eu bod naill ai yn boeth iawn neu yn oer iawn, a dim rhwng y ddau eithaf. Yr oedd hongiad y cerbydau yn wael weithiau, ac yr oedd gan y rhan fwyaf o'r cerbydau y teithiodd y tîm arolygu ynddynt seddi cyntefig iawn. Yr oedd rhai o'r seddi hyn yn rhydd, ac yn gwegian ar eu sylfeini. Y mae llawer o'r cleifion a gludir mewn gwth o oedran, gydag anhwylderau'r gwddf neu'r cefn; dywedodd rhai cleifion fod y daith ei hun yn eu gwneud yn sâl.

3.17. Sylwn y dengys Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ostyngiad yng nghyfran fflyd y GGC sydd dan saith oed (93% yn 2002-03, 87% yn 2003-04 ac 81% yn 2004-05). Yn ystod yr un cyfnod, cynyddu wnaeth cyfran y fflyd GMB oedd yn llai na phum mlwydd oed. Fodd bynnag, yn ystod ein hadolygiad cawsom ar ddeall fod cyllid cyfalaf ychwanegol yn dod i'r Ymddiriedolaeth ac o ganlyniad i hyn fe roedd 119 o gerbydau GMB newydd (28% o fflyd GGC ar hyn o bryd) a 67 o gerbydau GGC newydd (43% o fflyd GMB ar hyn o bryd heb gynnwys 28% o fflyd GGC ar hyn o bryd) wedi ei archebu.

3.18. Gwelodd ein hadolygwyr rai diffygion ychwanegol yn yr amgylchedd ofal, neu buont yn destun trafod gyda'r staff rheng flaen. Y mae diffyg cyfarpar yn lle dillad ac offer sydd yn cael eu difrodi neu eu maeddu yn peri i rai staff GMB olchi ac ail ddefnyddio'r un cyfarpar neu lifrai sydd wedi eu halogi. Y mae'r prosesau golchi hyn yn amrywio. Y mae peth offer fel arfer strapiau stretsieri neu strapiau byrddau cefn yn cael eu golchi gyda diheintydd a'u mwydo neu eu sgwrio yn hytrach na chael eu cyfnewid.

3.19. Y mae gan yr Ymddiriedolaeth gontract i ddarparu lifrai staff, a'r polisi yw, pan halogir lifrai, y dylid ei newid cyn gynted ag sydd modd, a sut bynnag cyn delio â'r claf nesaf. Er mwyn hwyluso hyn caiff pob aelod o staff chwe set o offer. Dylai lifrai sydd wedi eu maeddu'n drwm gael eu dinistrio a'r trefniant gyda'r contractwr yw y ceir un newydd ymhen 48 awr. Y mae cyfarpar gwarchod hefyd ar gael i'r staff, er enghraifft, gel dwylo, menig ac ofarôls (er i ni sylwi nad yw ofarôls ar gael ar gerbydau GGC ). O arsylwi, gwelsom mai amrywiol yw'r defnydd a wneir ohonynt wrth weithio.

3.20. Y mae lifrai yn cael eu golchi fel arfer mewn peiriannau golchi cartref. Dywedodd rhai aelodau staff wrthym eu bod yn mynd â'u lifrai adref i'w golchi a mynegodd yr aelodau staff hynny bryderon ynghylch posibilrwydd trosglwyddo heintiau a godwyd yn y gwaith i'w teuluoedd. Yr ydym yn ymwybodol fod y trefniadau ar gyfer glanhau lifrai gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn debyg yng nghyrrff eraill y gwasanaeth iechyd ac mae defnyddio cyfarpar gwarchod yn iawn (fel esboniwyd uchod) yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd lifrai yn ffynhonnell heintiau. Fodd bynnag, credwn ni mai'r arfer gorau yw i lifrai gweithwyr iechyd proffesiynol gael eu golchi yn eu man gwaith neu trwy drefniadau contractio. Sylwn fod Gwasanaeth Ambiwylans yr Alban wedi gosod peiriannau golchi o safon ddiwydiannol ym mhob un o'i gorsafoddd ambiwlans. Yn amlwg, y mae gwneud trefniadau o'r fath yn gostus i'r gwasanaethau ambiwlans, ac y mae'r pwnc ei hun yn un sydd ag oblygiadau ehangach ar draws y gwasanaeth iechyd. Nodwn fwriad YGAC i gyflwyno trefniadau depo newydd yn lle lawer o'u gorsafoddd ambiwlans ac ymddengys hyn yn gyfle i ofalu bod trefniadau addas ar gyfer golchi lifrai yn cael ei rhoi yn ei lle.

3.21. Yn aml nid oedd gwybodaeth yn cael ei roi gan staff nyrsio ysbyty i'r criwiau ambiwlans oedd yn cludo cleifion gyda heintiau. Y mae staff, gan gynnwys y rhai ar GGC, yn derbyn hyfforddiant ar heintiau ac ar weithdrefnau rheoli haint adeg cyflwyno a chynefino, a thrwy hyfforddiant gloywi, a chânt lawlyfrau yn ymdrin â'r mater. Fodd bynnag, teimlai rhai o'r staff GGC nad oedd yr hyfforddiant a gawsant ar oblygiadau mathau arbennig o heintiad, a sut i reoli cleifion yn unol â hynny, yn ddigonol.

3.22. Cyn belled ag y mae GMB dan sylw, cafwyd llawer o gyhoeddusrwydd i rai materion dros y misoedd diwethaf, sydd yn canolbwyntio'n bennaf ar amseroedd ymateb i argyfyngau. Y mae nifer o ffactorau ynghlwm â hyn: pa gerbydau sydd ar gael, technoleg cynllunio ac anfon, daearyddiaeth a'r pellteroedd maith y mae'n rhaid i rai ambiwlansys deithio gyda chleifion. Dengys Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol mai'r ffactor fwyaf arwyddocaol yw cyfatebu'r galw a'r cyflenwad am wasanaethau ambiwlans. Dengys yr Adroddiad hwnnw fod gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o adnoddau, ond nad yw'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny er mwyn cwrdd â'r galw.

3.23. Y mae sefyllfa GGC yr un mor broblemus. Efallai nad yw methiannau mewn systemau GGC yn wastad yn cael yr un canlyniadau difrifol i gleifion, ond y mae lefel y loes a'r anghysur a achosir gan fethiannau mewn systemau GGC yn effeithio ar lawer mwy o gleifion. Buom yn dystion i arferion cynllunio gwael oedd yn achosi dyblygu a gor-restru, oedd yn golygu na chyrhaeddodd cleifion glinigau mewn pryd. Dywedwyd wrthym am adegau pan nad oedd cerbydau ar gael, a hyn yn golygu fod staff yn dod ar shifft yn methu â chael eu defnyddio ar waith GMB/GGC a naill ai'n cael eu gadael yn segur neu yn cael tasgau megis glanhau gorsafoedd ambiwlans.

3.24. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth anghywir yn cael ei ddarparu i'r GGC a hyn yn golygu nad oedd y cludiant priodol wedi ei archebu i glaf. Mewn achosion o'r fath, rhaid oedd i gleifion ganslo eu hapwyntiadau yn llwyr ac yna profi oedi i gael apwyntiad arall. Y mae diffyg gwybodaeth i gleifion pan fyddant yn defnyddio GGC. Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth 'ganllaw

defnyddwyr' i ysbytai sydd yn archebu ambiwlansys rhyddhau neu drosglwyddo sydd yn rhoi cyfarwyddyd ar faterion megis faint o fagiau y gellir eu cludo. Ond nid oes gwybodaeth ysgrifenedig i'r claf i esbonio gofynion y gwasanaeth gofal cleifion, h.y. pa fagiau y medrwch fynd gyda chi yn y cerbyd, pa drefniadau sydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, neu â phwy i gysylltu os na fydd angen y cludiant bellach neu os oes raid canslo. Mae siwrneiau yn ddieithriad yn cael eu harchebu gan drydydd parti trwy ward ysbyty, gwasanaeth cleifion allanol neu feddygfa, yn ogystal â chartrefi preswyl/nyrsio. Mae cleifion yn aml eisiau dod ag eitemau megis pulpudau cerdded neu fagiau gyda hwy ar gerbyd GGC, ond y mae cyfyngiadau ar natur a maint y bagiau y mae modd eu cludo. Caiff cleifion wybod am y cyfyngiadau yn unig pan fyddant yn mynd i'r cerbyd, a gall hyn beri pryder iddynt os nad oes modd cludo'r eitem. Mae'r staff yn teimlo eu bod mewn sefyllfa anodd, yn gorfod naill ai gadw at ddisgwyliadau ffurfiol yr Ymddiriedolaeth, neu wneud penderfyniadau yn y fan a'r lle nad ydynt, efallai, yn unol â pholisi'r gwasanaeth. Er nad oes modd syml o ddarparu'r cyfryw wybodaeth i gleifion, yn ein barn ni, byddai taflen yn esbonio'r materion hyn o fudd, a byddai modd ei dosbarthu trwy feddygfeydd a'i chadw ar gerbydau GGC. Dewis arall yw cynhyrchu poster i'w arddangos mewn meddygfeydd a chlinigau. Clywsom gan staff GGC nifer o enghreifftiau o'r hyn oedd yn eu barn hwy yn ddefnydd amhriodol o GGC ac yr oedd y rhain yn cynnwys archebu cludiant amhriodol gan feddygfeydd, cleifion yn defnyddio GGC yn hytrach na'u cerbydau eu hunain oherwydd taliadau parcio mewn ysbytai, ayb. Gallai rhoi gwybodaeth i gleifion am drefniadau GGC helpu i liniaru'r anawsterau hyn.

3.25. Ni all llawer o gleifion ddod â'u cadair olwyn eu hunain ar gludiant YGAC gan nad oes cyfleusterau ar y cerbydau cludo i deithwyr a chadeiriau olwyn fynd iddynt yn rhwydd. Mae'r lle yn y cerbydau yn gyfyngedig ac anogir defnyddwyr cadeiriau olwyn er mwyn eu diogelwch eu hunain i eistedd ar un o'r seddi sefydlog onid oes rhesymau meddygol yn atal hyn. Mae llawer o gleifion yn pryderu na fydd cadair olwyn ar gael iddynt pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty, ac fe ddigwyddodd hyn i rai cleifion. Y mae'r

Ymddiriedolaeth wedi cydnabod yr anhawster hwn ac y mae prynu cerbydau newydd yn darparu ar gyfer lle i gadeiriau olwyn.

3.26. Yn gyffredinol, mae ysbytai yn cydnabod y bydd cleifion a gludir gan YGAC yn cyrraedd mewn cyfnod o amser o boptu amser penodol yr apwyntiad a roddwyd iddynt o ganlyniad i'r trefniadau cytundebol sy'n dweud y dylid dwyn yr holl gleifion i mewn am 10.00 a.m. neu 2.00 p.m. Nid yw ysbytai wedi gallu cyllido cludiant i gleifion ar sail amseroedd apwyntiadau unigol. Fodd bynnag y mae nifer o gleifion yn cyrraedd dipyn y tu allan i'r amser a roddwyd gan yr ysbyty ar gyfer yr apwyntiad oherwydd y trefniadau cludo 'cyffredinol' sydd yn mynnu bod nifer fawr o gleifion yn cael eu casglu o wahanol fannau a'u cludo i ysbytai ar wahanol safleoedd. Cydnabu'r Ymddiriedolaeth yr angen i ail gynllunio'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau GGC, er enghraifft trwy fwy o ddefnydd o geir yn hytrach nag ambiwlansys, ac y mae'n ymdrin â'r mater hwn trwy ei Gynllun Moderneiddio.

3.27. O'u cymharu â nifer y cleifion a gludir gan yr Ymddiriedolaeth (586,000 rhwng Ebrill ac Awst 2006) cymharol bychan yw nifer y cwynion a dderbynnir. Yr oedd tystiolaeth cyfweiliadau yn cyfeirio at gwynion aml gan ddefnyddwyr y gwasanaeth cludo cleifion am amseru ysbeidiol ac amhrydlon cludiant GGC a archebwyd. Y mae system gwynion ffurfiol yr Ymddiriedolaeth ei hun yn dweud mai materion cadw amser yw'r categori unigol mwyaf o gwynion a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth i GMB a GGC. O Ebrill i Awst 2006 cafwyd 55 cwyn ynghylch GGC ac yr oedd 30 (54%) o'r rhain ynghylch cadw amser. Daeth rhai o'r cwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd, wedi triniaeth yn yr ysbyty, yn teimlo'n bur wael ac wedi cael eu gadael yn disgwyl am amser maith cyn cael eu cludo adref. Yr oedd hyn yn broblem hefyd i rai o'r ysbytai y buom yn ymgynghori â hwy. Mae nifer o resymau am yr oedi. Cyfyngir GGC gan fod staff yn gweithio rhestri dyletswydd a pha gerbydau addas sydd ar gael ar adegau penodol. Hefyd, mae mwy o oedi yn cael ei achosi yn aml wrth i staff GGC orfod aros i nifer o gleifion orffen eu triniaeth/ymgynghoriad a dod i'r ambiwlans cyn gallu cychwyn ar y daith.

3.28. Golyga systemau gweithredu GGC, ynghyd â galwadau systemau ysbytai, nad yw cyflwyno cleifion yn wastad yn cyd-fynd ag amseroedd apwyntiadau ysbytai. Y mae cydweithrediad ac ewyllys da staff yr ysbytai a GGC yn helpu i liniaru rhai o anawsterau'r cleifion. Cytunodd pob ysbyty, er hyn, i flaenoriaethu cleifion cludwyd gan GGC. Y mae staff gweithredol GGC yn anffurfiol yn ceisio blaenoriaethu'r cleifion y gwyddant hwy sy'n debyg o deimlo'n symol wedi cael triniaeth, neu a gyfyngir i amser apwyntiad penodol yn yr ysbyty. Serch hynny, y mae'r cyfyngiadau uchod yn dal ar yr Ymddiriedolaeth.

3.29. Y mae Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol wedi edrych i mewn yn drylwyr i faterion yn ymwneud ag amseroedd ymateb GMB. Yn ei adroddiad ef, y mae data sy'n darlunio methiant presennol yr Ymddiriedolaeth i gwrdd â'r targedau ymateb a osodwyd i'r Ymddiriedolaeth. I grynhoi, llwyddodd YGAC i gyrraedd 60% o'r targed ar gyfer cyrraedd cleifion yng Nghategori A<sup>3</sup> mewn deufis yn unig ers Mawrth 2004. Yr oedd hefyd wedi methu â chyrraedd targedau eraill am amseroedd ymateb.

3.30. Mae oedi yn digwydd mewn ymateb i alwadau GMB waeth beth yw natur y ddaearyddiaeth yn lleol. Y mae ambiwlansys brys lleol mewn ardaloedd llai eu poblogaeth weithiau yn cael eu hanfon i ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn ddwysach pan fydd yr ambiwlansys sydd yno yn ymateb i alwadau. Y mae hyn yn peri pryder i rai o'r staff ambiwlans a ddywedodd wrthym, dan amgylchiadau o'r fath a phetai argyfwng yn digwydd yn ardal leol yr ambiwlans a adleoliwyd, y bydd yn rhaid i'r ambiwlans yn aml deithio pellter

---

<sup>3</sup> Mae gwahanol Ymddiriedolaethau Ambiwllans yn defnyddio gwahanol systemau categoreiddio ac, unig pry ddefnyddiwyd yr un system, maent yn cael ei dadansoddi mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, ar draws yr UD mae yna dri lefel/categori derbyniol o alwadau brys i wasanaethau ambiwlans (A, B a C) sydd wedi ei lleihau i ddau lefel (cyfuno galwadau categori C a B) system mewn rhai Ymddiriedolaethau. Yn wir, yng Nghymru ei hun, mae'r ddwy lefel o dri a dau gategori mewn bodolaeth dros y ddwy flwyddyn diwethaf. Mewn termau o adnabod anghenion claf, fe fydd yna wastad elfen o anghywirdeb oherwydd diffyg gwybodaeth gan alwadwyr, penbleth, camgymeriad dynol a chyfyngder systemau ac materion i ymwneud a chysondeb a'r ffordd mae claf yn cyflwyno yn cael ei uniaethu gan wahanol cyfundrefn. Mae galwadau categori A yn cael ei adnabod fel digwyddiad bygwth bywyd. Mae categori B yn cynnwys galwadau brys eraill. Lle mae categori C yn cael ei ddefnyddio mae'n cyfeirio i alwadau sydd angen ymateb heb fod yn cynnwys argyfwng agos. Yn y system 2 lefel, mae galwadau mae rhai Ymddiriedolaethau yn categoreiddio fel C yn cael ei delio fel galwadau categori B.

maith yn ôl eto i gyrraedd y claf, a bod hyn yn achosi mwy fyth o oedi. Y mae'n amlwg o drafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth mai canlyniad yw hyn i ddiffyg cynllun strategol i ymdopi â newidiadau yn y galw a'u cyfatebu â'r adnoddau sydd ar gael. Mater yw hwn y mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau. Gosodd Cynllun Moderneiddio'r Ymddiriedolaeth nifer o amcanion gyda'r bwriad o wella amser ymateb i anghenion cleifion a sicrhau fod modd cyrchu gofal clinigol brys priodol<sup>4</sup>. Gall YGAC ganfod atebion dychmygus i wella amseroedd ymateb, er enghraifft trwy ddefnyddio 'ymatebwyr cyntaf' a llwybrau eraill i gleifion. Trwy hyn, dylai YGAC allu cwrdd â'r targed a sefydlwyd (yn y tymor byr, 60% o alwadau categori A yn derbyn ymateb ymhen 8 munud). Mater i benderfyniadau am ddyrniad a defnydd cyffredinol adnoddau'r GIG yw i ba raddau y gellir codi'r targed yn uwch na'r 75% a gynigiwyd ar gyfer y tymor hir.

3.31. Mae oedi yn digwydd yn aml i gleifion pan fyddant yn cyrraedd adrannau D&A. Y mae'r ysbytai yn gwneud eu gorau i ymdrin ag anghenion cleifion ac asesu eu blaenoriaeth. Fodd bynnag, y mae problemau yn codi weithiau yng nghyswllt yr oedi hwn. Ar adegau prysur, efallai na all criwiau GMB drosglwyddo claf i ofal D&A yr ysbyty yn syth ac oherwydd pwysau mewn adrannau D&A, efallai y bydd yn rhaid i gleifion aros mewn cyntedd cyhoeddus neu mewn ambiwlans mewn maes parcio yng ngolwg y cyhoedd ac yn aml mewn poen er eu bod yn dal dan ofal staff GMB. Er nad bai'r Ymddiriedolaeth mo hyn, nid oes urddas yn y sefyllfa hon, ac y mae'n diraddio'r cleifion a'r gofalwyr fel ei gilydd. Bydd angen i YGAC barhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaethau sydd yn bartneriaid iddi i annog trosglwyddo cleifion yn fuan pan gyrhaeddant adrannau D&A.

3.32. Wrth ystyried ffactorai sydd yn effeithio ar brofiad claf mae gan yr Ymddiriedolaeth 'Bolisi a Chanllawiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' a 'Chynllun Cydraddoldeb Hil'. Y mae'r dogfennau hyn yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â recriwtio, effaith polisïau ar gydraddoldeb, monitro i sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth, hyfforddi staff ar gyfer eu cyfrifoldebau, a'r

---

<sup>4</sup> Paragraff 2.2.1 o fersiwn 8 o 'Amser i Wneud Gwahaniaeth'

defnydd priodol o 'gampau cadarnhaol' i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ddaw i ran staff du a lleiafrifoedd ethnig.

3.33. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynhyrchu "Polisi Diogeli a Lles y Plant" yn union a chanllawiau Cynulliad Cymru ac mae wedi ei selio ar argymhellion "Arfer Diogeli Plant Cymru Gyfan". Mae'r polisi yn cael cymorth gan Grŵp Gweithio Diogeli Plant sydd yn Is Grŵp o Is Bwyllgor Rheoli Clinigol yr Ymddiriedolaeth. Mewn cyd destun ag oedolion hawdd ei niweidio mae gan yr Ymddiriedolaeth polisi yn ei lle sy'n gosod allan canllawiau i'w ddilyn yn sgil cwynion neu amheuan o camddefnydd oedolyn hawdd ei niweidio.

3.34. O ran materion iaith, cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth lyfr ymadroddion amlieithog i'w ddefnyddio gan griwiau ambiwlans wrth drin cleifion nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Y mae 31 iaith yn y llyfryn, ac y mae hefyd yn cynnwys y wyddor i bobl ddall/byddar. Y mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn defnyddio'r 'Llinell Gymorth Iaith'; gwasanaeth sydd yn galluogi unrhyw un sy'n galw'r ystafell reoli argyfwng i siarad â'r staff rheoli yn eu dewis iaith.

3.35. Y mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Iaith Gymraeg. Nod y cynllun yw gofalu bod staff yn cael eu hannog i ddatblygu eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg ac y mae gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth wedi eu trefnu a'u cynllunio i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg. Cred yr Ymddiriedolaeth fod proffil ieithyddol ei staff yn adlewyrchu proffil y rhannau hynny o Gymru lle maent yn darparu gwasanaeth, gan fod staff wedi eu recriwtio yn lleol. Derbyniodd Grŵp Gweithredu'r Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth adroddiad ym mis Chwefror 2005 yn nodi nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd. Dangosodd hyn fod 366 (14.4%) o siaradwyr Cymraeg rhugl ymysg y 2535 o staff oedd yn gyflogedig ar y pryd gan yr Ymddiriedolaeth. Yr oedd y siaradwyr rhugl yn bennaf yn rhanbarthau gogleddol a gorllewinol y gwasanaeth, a'r canolbarth. Yn ychwanegol at y rhai sy'n rhugl eu Cymraeg, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi nifer o staff sydd â rhai sgiliau iaith Gymraeg. Nod yr Ymddiriedolaeth yw gofalu fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth drin galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg, a sefydlir cronfa ddata o bobl sydd ar gael i drin galwadau trwy

gyfrwng y Gymraeg. Yn anffurfiol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gofalu fod o leiaf un siaradwr Cymraeg ar bob shift yng nghanolfan reoli gogledd Cymru.

3.36. Pwyllgor Monitro Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth sydd yn monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r pwyllgor yn adrodd trwy'r Pwyllgor Adnoddau Dynol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

3.37. Y mae trefniadau presennol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli cwynion yn dda. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth rhwng 250 a 300 o gwynion ffurfiol y flwyddyn ac yn nau chwarter cyntaf 2006-07 yr oedd a wnelo 52% o'r cwynion â GMB a 48% â GGC. Darperir adroddiadau rheolaidd am hynt cwyn, rhoddwyd canllawiau i'r staff sydd yn gyfrifol am ymchwilio lleol, ac y mae'r prosesau gweinyddol canolog yn gadarn. Yr oedd staff YGAC yn cytuno gyda'r farn a fynegwyd gan rai cleifion nad oedd YGAC yn y gorffennol wedi bod yn sefydliad oedd yn trin cwynion yn gadarnhaol a bu'n anfodlon cydnabod ei fethiannau ei hun. Dywedwyd wrthym fod y sefyllfa wedi newid gyda phenodiad y Prif Weithredwr Interim cyntaf. Yr oedd staff rheoli cwynion yn gweld y penodiad hwnnw fel un a welodd gyfnod o newid pwysig gan gyflwyno agwedd oedd yn canoli fwy ar y claf, a pharodrwydd i ymddiheuro lle'r oedd yn briodol, er y teimla rhai staff rheng flaen o hyd nad da lle gellir gwell.

***Argymhelliad 2: Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei threfniadau i gynllunio a rheoli GGC ac yng ngoleuni hynny gyflwyno rhestri rheoli a staffio'r fflyd i addasu ei hadnoddau i gwrdd â'r galw ar yr adegau prysuraf. Trwy ymgynghori â'i chomisiynwyr a chleifion dylai ofalu bod y trefniadau yn ddigon hyblyg i gwrdd â'u hanghenion.***

***Argymhelliad 3: Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu safon ei fflyd a gweithredu rhaglen o gynnal ac adnewyddu a fydd, dros y tair blynedd nesaf, yn esgor ar safonau mwy dibynadwy a mwy o gysur i gleifion.***

***Argymhelliad 4: Dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'r CIC, ysbytai, darparwyr gofal sylfaenol a'r cyhoedd i wneud yn siŵr fod gan y cleifion y wybodaeth mae arnynt ei angen am wasanaethau YGAC ac annog aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio ei gwasanaethau yn effeithiol.***

***Argymhelliad 5: Dylai'r Ymddiriedolaeth rhoi peirianwaith monitro yn ei le er mwyn gofalu bod digon o lifrai yn cael ei roi, ac ei bod yn cael***

*hadnewyddu yn fuan. Tra mae'r defnydd cywir o ddillad a chyfarpar gwarchod yn lleihau risg croes heintio i'r eithaf yn ddelfrydol, ni ddylai'r, staff fynd â'u lifrai adref. Dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i chomisiynwyr i bennu a gweithredu'r trefniadau mwyaf priodol ar gyfer glanhau lifrai.*

*Argymhelliad 6: Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau y gweithredir y Polisi Rheoli Haint ledled yr Ymddiriedolaeth a cheisio mwy o gyngor priodol lle bo angen.*

## **Defnyddio Gwybodaeth**

3.38. Yr oedd Cynllun Treigl Tair Blynedd Datblygu Llywodraethu Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, a adolygwyd ddiwethaf ym Mawrth 2006, yn nodi'r camau allweddol y byddai'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth eu cymryd yn sgil Adolygiad CGI yn 2004. Ymysg y camau hyn mae nifer oedd yn gysylltiedig â defnyddio gwybodaeth gan yr Ymddiriedolaeth. Ers Adolygiad CGI, datblygodd yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), er na ddosbarthwyd hwnnw ledled yr Ymddiriedolaeth. Yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, penododd yr Ymddiriedolaeth Gyfarwyddwr TGCh. Yn yr un modd, cafwyd bod materion eraill oedd angen sylw wedi cyrraedd y cyfnod datblygu neu baratoi, ond nad oeddent eto wedi eu gweithredu yn llawn. Argymhelliad arall gan CGI, a erys yng nghategori dim cynnydd sylweddol wedi ei wneud, yw gweithredu proses i ddiffinio sut i gael gwelliannau yn ansawdd gofal cleifion trwy ddefnyddio gwybodaeth.

3.39. Ar gyfartaledd canfuom systemau gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth, ei dealltwriaeth o bwysigrwydd gwybodaeth a'r adnoddau oedd yn cael eu defnyddio i gynhyrchu gwybodaeth ystyrion a manwl gywir yn annigonol. Yr oedd hyn yn wir am lawer maes gwybodaeth a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth er enghraifft:

- **Gwybodaeth ar gyfer cyfarwyddo a rheoli cerbydau GMB** Nid oes gan YGAC unrhyw system i Gymru gyfan ar gyfer darganfod union leoliad ei cerbydau a gall ei system radio fethu yn rhai rhannau o'r wlad. Y mae rheolaeth ar orchymyn a rheoli yn amrywio o ardal i ardal er bod systemau

rheoli GMB ar gyfer lleoli a defnyddio unedau GMB yn fwy cyson na'r rhai ar gyfer GGC gan eu bod yn cael eu cefnogi gan un system gynllunio electronig. Fodd bynnag y mae camgymeriadau yn digwydd wrth fewnbynnu data i GMB a GGC fel ei gilydd. Gallai rhai o'r mân frychau neu gyfyngiadau hyn mewn gwybodaeth a basiwyd i'r criwiau fod wedi cael canlyniadau difrifol. Gall y data gwallus hwn ymwneud â'r dref anghywir, enw neu rif anghywir y tŷ neu adran anghywir yn yr ysbyty. Y mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Uwch System Blaenoriaeth Anfon Feddygol (AMPDS) sef system a yrrir gan brotocol sydd yn darparu system gadarn o reoli risg trwy holi'r sawl sy'n galw ac yna blaenoriaethu eu galwadau yn awtomatig. Y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cynllun i gael setiau radio newydd yn yr ambiwlansys a ddylai helpu criwiau pan fyddant yn ceisio ac yn gwirio gwybodaeth o ganolfannau rheoli.

- ***Gwybodaeth ar gyfer cynllunio gwelliannau i wasanaethau clinigol*** Y mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n drwm ar y data sydd ar gael o'r Cofnod Clinigol Claf (CCC) y mae'n gynhyrchu ar gyfer pob claf GMB. Fodd bynnag, nid yw'r system ar gyfer dal a throsglwyddo'r data hyn yn gadarn (gweler Pennod 4). Hefyd, tra bod gan yr Ymddiriedolaeth grŵp bychan o bobl gyda sgiliau dadansoddi da a Rheolwr Archwilio Clinigol Cenedlaethol galluog, bychan yw'r adnoddau a neilltuwyd i'r dasg, ac nid ydynt yn ddigonol ond i fwrw ymlaen â rhan fechan o'r dadansoddi angenrheidiol ar y wybodaeth. Y mae pryder hefyd fod y data a geir ac a ddefnyddir mewn prosesau dadansoddol systemaidd yn aml yn wallus, ac ychydig o archwiliadau samplu data a wneir i roi prawf ar gywirdeb y data sy'n cael ei ddiol. Dywedodd staff fod gwiriadau cydymffurfio a gynhaliwyd ar CCC yn adlewyrchu effeithiolrwydd y gofal oedd yn cael ei roi i gleifion yn y fan a'r lle, ac nad oeddent ond yn rhoi ymateb ar pa mor dda y llenwyd pob un o'r bocsys ar y ffurflen CCC. Nid oes lle ar y ffurflenni CCC i staff GMB gofnodi yn fanwl gywir y trefniadau trin a weinyddwyd pan na fyddant yn cydymffurfio â'r protocolau arferol a heb fod yn unol â'r ffurflen.

- **Data perfformiad** Tueddodd yr Ymddiriedolaeth i ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar dargedau tymor byr yn ei phroses gynllunio strategol. Trwy ganolbwyntio ar y rhain, roedd Ymddiriedolaeth wedi colli olwg ar anghenion y gwasanaeth o safbwynt strategol ehangach. Buasai mwy o ddadansoddi ar ddata perfformiad wedi caniatáu'r sefydliad i gael gwelliannau mesuradwy dros y tymor hwy.
- **Adrodd am Ddigwyddiadau** Y mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ffurflen ddigwyddiadau safonol, yr Adroddiad Digwyddiad Croes (ADC) i adrodd am ddigwyddiadau gwirioneddol neu rai fu bron â digwydd. Y mae tystiolaeth gan y staff rheng flaen o beth tan gofnodi digwyddiadau allasai fod wedi bod yn niweidiol am amrywiaeth o resymau. Dywedodd rhai aelodau staff eu bod wedi eu boddi gan waith papur yn dilyn cwyn am ofal claf, neu eu bod wedi blino'n lân oherwydd goramser, neu bod swm y galwadau yn effeithio ar adrodd yn gyflawn am ddigwyddiadau. Dywedodd rhai staff wrthym na chyhoeddir adborth data o'r ffurflenni ADC yn eang na'u dosbarthu ar bob lefel yn y gwasanaeth.
- **Gwasanaethau Gofal Cleifion** Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw wybodaeth ddefnyddiol am y GGC. Y mae nifer o wahanol systemau cynllunio yn cael eu defnyddio ledled Cymru, ni chesglir dim data perfformiad ac eithrio am nifer y cleifion a gludir, ac nid oes golwg systemaidd am pa ddata sy'n bwysig i'w gasglu a'i ddadansoddi. Y mae ein canfyddiadau yn hyn o beth yn debyg i eiddo'r Archwiliwr Cyffredinol. Nodwn fod y Bwrdd, dros yr wyth mis diwethaf, wedi mynd i'r afael â mater data GGC ac yr ystyriwyd cais i unioni'r sefyllfa ym mis Tachwedd 2006.

3.40. Ym mhob un o'r meysydd uchod, nodwyd methiannau. Yr oedd rhai o'r rhain yn strategol, o ran cytundeb ar lefel Bwrdd ynghylch pa wybodaeth sydd ei angen a sut y caiff ei ddefnyddio i bennu a llywio cyfeiriad yr Ymddiriedolaeth. Cymerodd y Bwrdd gamau i fynd i'r afael â hyn. Mae rhai methiannau yn rhai gweithredol, yn ymwneud â hyfforddi staff a sicrhau bod yr holl staff yn deall gwerth a phwysigrwydd gwybodaeth i holl staff yr

Ymddiriedolaeth. Y mae oblygiadau o ran adnoddau staff (y gofyniad i ddal data a'u rhoi yn y systemau electronig a'u dadansoddi) a thechnoleg (caffael systemau electronig cadarn i ddatrys rhai materion dal data a rhoi arfau dadansoddi cyson y mae modd eu defnyddio ledled Cymru) i ymdrin â'r methiannau hyn. Y mae Cynllun Moderneiddio'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys nifer o amcanion i wella defnyddioldeb gwybodaeth<sup>5</sup>.

3.41. Fodd bynnag, cydnabyddir er hynny fod llecynnau o arfer neu fentrau da yn yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys:

- Menter ledled yr Ymddiriedolaeth i gasglu data ar gyfer archwiliadau cardiaidd cenedlaethol yn ymwneud â thrombolysis mewn cleifion yn dioddef cnawdnychiad myocardiaidd (CM). Mae swyddogion thrombolysis yr Ymddiriedolaeth yn cadw cofnodion o staff sydd yn gymwys i weinyddu cyffuriau thrombolytig ac yn monitro data o ddeilliannau'r cleifion.
- Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau sy'n bartneriaid. Er enghraifft, yn un ysbyty (ysbyty Treforys yn Abertawe), bydd staff yn asesu deilliannau clinigol cleifion trawma a driniwyd gan yr ysbyty ac mewn rhai achosion yn gwahodd y criwiau ambiwlans aeth i'r digwyddiad penodol i gyfarfod archwilio amlddisgyblaethol lle'r asesir yr achos unigol. Y nod yw darganfod arfer da

***Argymhelliad 7: Dylai'r Ymddiriedolaeth bennu ar lefel Bwrdd ac uwch-reolwyr yr wybodaeth sydd ei angen i reoli yn strategol a gweithredol, a nodi'r gwasanaethau y bydd yn meincodi ei pherfformiad yn eu herbyn.***

***Argymhelliad 8: Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'i hanghenion gwybodaeth.***

---

<sup>5</sup> Paragraff 2.6.1 o fersiwn 8 o 'Amser i Wneud Gwahaniaeth'

## **Prosesau Gwella Ansawdd**

### ***Rheoli Risg***

3.42. Ers Adolygiad CGI, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gofrestr risg gynhwysfawr a datblygu gwell polisi a gweithdrefn ar adrodd am ddigwyddiadau croes, ond gwelwyd mai ychydig o gynnydd a wnaed o ran darparu hyfforddiant i'r staff mewn rheoli risg.

3.43. Cafwyd nad aethpwyd i'r afael yn llawn â nifer o argymhellion y CGI, ac yr oedd rhai o'r rhai a nodwyd yn yr adolygiad a gynhaliwyd ym Mawrth 2006 o Gynllun Treigl Tair Blynedd Datblygu Clinigol yr Ymddiriedolaeth fel rhai wedi eu cwblhau yn anghyflawn. Er enghraifft, adroddodd yr Ymddiriedolaeth fod systemau effeithiol ar gael i atal perygl croes heintio. Fodd bynnag, gwelsom fod rhagofalon hylendid yn cael eu cymhwyso yn anghyson mewn perthynas ag amgylchedd y cerbydau yn ei gwneud yn anos cadw cerbydau GGC yn lân. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mynegasom ein pryderon ynghylch rheoli heintiau.

3.44. Mae llawer o'r risg ynghylch GGC yn cael ei reoli am fod criwiau GGC yn gyfarwydd â llwybrau arferol a chleifion rheolaidd. Cyfyd perygl i gleifion bregus pan fydd gofyn i staff weithio mewn ardaloedd anghyfarwydd, dan bwysau amser, pan fyddant yn flinedig a than straen, a bod gofyn iddynt wneud teithiau ychwanegol cyn gorffen shift. Nid yw'r systemau rheoli a gyflwynwyd er mwyn lleihau'r risg i gleifion sydd yn defnyddio cerbydau GGC yn dal yn cael eu gweithredu yn gyson ar draws yr Ymddiriedolaeth (gweler Pennod 5).

3.45. O'n harsylwadau, ychydig o dystiolaeth oedd i ddangos, ar lefel weithredol, y gweithredir ar wybodaeth am risg, digwyddiadau a chwynion posibl, na'u bod yn cael eu cyfleu na gweithredu arnynt yn effeithiol. Y mae amrywiaeth mawr yn yr arfer o'r hyn a ddatgenir ym mholisiau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth.

## ***Goruchwyllo Clinigol a Lleihau Risg***

3.46. Ychydig o dystiolaeth a gafwyd i ddangos fod staff GGC yn derbyn goruchwyliaeth weithredol wrth eu gwaith. Fodd bynnag yr oedd rhai o'r staff GMB yn canmol yr oruchwyliaeth glinigol a gaent hwy, gan ddweud fod eu gwaith yn cael ei asesu'n rheolaidd gan aseswyr gweithredol. Dywedwyd bod hyfforddiant gloywi yn amserol ac addas, a dywedodd y rhan fwyaf o'r criwiau GMB a holwyd gennym ni eu bod yn hyderus i gyrchu canllawiau clinigol petai cwestiwn neu ansicrwydd yn codi tra'u bod 'allan yn y maes'.

3.47. Yr oedd cyfyngiadau oedd yn peri pryder yn y gweithdrefnau am wirio cymwysterau ac addasrwydd yr holl staff oedd yn gweithio. Er enghraifft, mae amrywiadau yn y gweithdrefnau ar gyfer gwirio trwyddedau gyrru'r staff. Mewn rhai gorsafoedd, mae'r gwiriad hwn yn cael ei wneud yn flynyddol a chaiff y dogfennau eu harchwilio'n gorfforol, tra mewn eraill, nid yw'r gwiriadau yn digwydd, neu maent yn arwynebol, a chopiau weithiau yn cael eu derbyn. Dywedwyd nad yw gwiriadau golwg yn cael eu cynnal yn yr Ymddiriedolaeth, ac eithrio am y rhai sy'n digwydd fel rhan o brawf meddygol wrth ymuno. Mae manylion cofrestriad y parafeddygon yn cael eu cadw mewn cronfa ddata yn yr adran hyfforddi. Bob mis, mae Swyddogion Ambiwlans Lleol (SALI) yn gwirio statws cofrestriad eu holl staff para feddygol yn erbyn gwefan y Cyngor Proffesiynau Iechyd (CPI) ac yn cyflwyno adroddiad misol i'r adran hyfforddi. Oni fydd yr adran hyfforddi yn derbyn adroddiad mae yna'n mynd ar ôl y mater. Hysbyswyd pob parafeddyg na chaniateir iddynt weithio os oes unrhyw amheuaeth am eu cofrestriad. Yn ystod ein hymweliadau arsylwi, yr oedd yn ymddangos bod rhai parafeddygon yn dal yn ansicr am y trefniadau oedd gan yr Ymddiriedolaeth yn hyn o beth.

3.48. Dywedodd rhai aelodau staff nad oeddent yn glir ynghylch rôl yr Uned Iechyd Galwedigaethol Unit (UIG). Caiff staff eu brechu rhag Hepatitis B naill ai hanner ffordd trwy eu gwasanaeth neu pan fyddant yn ymuno gyntaf. Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn ysgrifennu at y staff wedi i bum mlynedd fynd heibio i'w hatgoffa i ddod i mewn i wirio eu statws, ac yn rhanbarthau'r gogledd a'r canolbarth a'r gorllewin, mae'r uned iechyd galwedigaethol yn

dilyn i fyny y sawl nad ydynt wedi ymateb. Nid yw'r Ymddiriedolaeth mor sicr y dilynir y sawl nad ydynt yn ymateb yn rhanbarth y de a gall mai hyn sydd i gyfrif am y ffaith fod rhai aelodau staff wedi dweud wrth ein hadolygwyr mai mater i bob unigolyn yw'r cyfrifoldeb dros sicrhau fod gwiriadau statws dilynol yn digwydd.

3.49. Fodd bynnag, fe gafwyd esiamplau o systemau gweithio diogel.

- Rheoli ac archwilio cyffuriau generig. Yn rhanbarth y de ddwyrain a Phowys, defnyddir system o focsys cyffuriau dan sêl, sydd wedi eu rhifo'n unigol. Mae pob bocs yn cynnwys nifer penodol o gyffuriau sydd eu hangen yn ôl y rhestr, yn barod i fynd ar y ffordd. Mae y dyddiad terfynu perthnasol y tu allan ac yr maent wedi eu selio â sêl a'i gwnâi yn amlwg petai rhywun wedi ymyrryd. Byddai'r bocsys yn cael eu cyfnewid ar ddiwedd pob shift onid oedd y sêl yn gyfan. Mae rhifau'r bocsys yn cael eu logio allan a'u logio i mewn a chofnod yn cael ei gadw o unrhyw gyffuriau fyddai'n cael eu defnyddio. Mae staff yr orsaf neu unigolion ar ddyletswyddau ysgafn yn ail-lenwi'r hen focsys. Gwnaed penderfyniad i ehangu'r system hon ledled yr Ymddiriedolaeth.
- Mae trefniadau priodol i roi cyffuriau rheoledig.
- Mopiau lliw gyda bwcedi wedi eu marcio'n unigol i lanhau manau penodol, e.e., toiledau, y tu mewn i gerbydau, golchfeydd etc.

### ***Archwiliad Clinigol***

3.50. Ers Adolygiad CGI, cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol a sefydlwyd strwythur ar gyfer ei chyflwyno. Sefydlwyd Gweithgor Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Meddygol yr Ymddiriedolaeth, sydd yn adrodd i'r is Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Rhan o'r Strategaeth oedd darparu

hyfforddiant i'r staff mewn archwilio clinigol, a darparwyd peth hyfforddiant i grŵp bychan o staff. Nododd y Strategaeth hefyd bwysigrwydd casglu gwybodaeth ac ansawdd y data sydd ar gael at ddibenion archwilio. Datblygwyd cynllun archwilio blynyddol hefyd. Y mae cynllun moderneiddio YGAC yn cynnwys nifer o amcanion gyda'r nod o gyflawni gwellhad archwilio ac effeithiolrwydd clinigol.

3.51. Y mae'r Strategaeth yn dibynnu ar dîm bychan ymroddedig, fel adnodd canolog, a gallu'r Ymddiriedolaeth i danio brwdfrydedd yr holl staff a ddylai, wedi peth hyfforddiant, chwarae eu rhan mewn sicrhau effeithiolrwydd clinigol ledled yr Ymddiriedolaeth. Y mae hwn yn nod clodwiw; ychydig o dystiolaeth, fodd bynnag, oedd ar gael i ddangos fod yr Ymddiriedolaeth yn agos at gyrraedd y nod hwnnw ac efallai nad amcangyfrifwyd cymaint o adnoddau oedd eu hangen i'w gyrraedd. Heb wrthsefyll hyn, y mae'n amlwg na fu arweinyddiaeth a gallu rheoli'r Ymddiriedolaeth hyd yma yn ddigon i fwrw ymlaen gyda'r Strategaeth.

3.52. Penododd yr Ymddiriedolaeth un o'i Swyddogion Ambiwllans Rhanbarthol i arwain mewn Llywodraethu Corfforaethol fel secondiad. Awgrymwyd mai priodol oedd hyn gan fod yn rhaid i'r rôl arwain fod yn un llawn-amser a bod manteision i gael 'rhywun ambiwlans' yn arwain. Hefyd, mae Rheolwr Archwilio Cenedlaethol yn adrodd i'r Arweinydd Llywodraethu Corfforaethol a gwnaeth ymdrech lew i gynyddu gallu'r Ymddiriedolaeth i reoli ei data ac i roi dadansoddiad buddiol o'r data. Bwriwyd ymlaen gydag archwiliadau: yr oedd y tri a welsom ni yn dangos sylw da i archwilio materion o ddiddordeb clinigol i'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, cyfyngir ar allu'r Rheolwr Archwilio Cenedlaethol i ddwyn yr archwilio clinigol ymlaen oherwydd y diffyg adnoddau yn y rhanbarthau a'r ardaloedd. Nid yw adnoddau ar gyfer archwilio wedi dilyn cynhyrchu Strategaeth yr Ymddiriedolaeth ac a chyfyngwyd ar faint o waith oedd modd ei wneud trwy ddefnyddio swyddogion thrombolysis fel pencampwyr archwilio. Darparwyd hyfforddiant mewn archwilio clinigol hefyd ar gyfer rheolwyr gweithrediadau clinigol bu hyn yn llwyddiant, a chafwyd canlyniadau buddiol. Fodd bynnag, ni chafodd yr

hyfforddiant hwnnw'r effaith disgwylidig yn y tymor hir o ran swyddogion gweithrediadau clinigol yn gallu ymrwymo i waith archwilio.

3.53. Y mae'n glir felly bod Strategaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol yn dioddef yn sgil diffyg adnoddau, a bod hyn yn cael effaith arbennig ar yr agenda llywodraethu corfforaethol ehangach. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ail archwilio ei hadnoddau y mae'n ymrwymo o ran arweinyddiaeth a rheoli, ac o ran staff gwybodaeth ac archwilio 'rheng flaen'. Yn ein barn ni, y mae gwasanaeth o faint YGAC, gyda'r cymhlethdodau y mae'n wynebu o ran cyflwyno gwasanaethau clinigol modern, yn galw am swydd Cyfarwyddwr Clinigol llawn-amser er mwyn bwrw ymlaen gyda rhagoriaeth glinigol. Byddai dyletswyddau'r swydd hon yn cynnwys y canlynol:

- amser i'w roi i ofalu bod y Bwrdd a'r rheolwyr yn derbyn canllawiau proffesiynol clir ynghylch blaenoriaethau clinigol, yr arfer clinigol gorau, ac ystod eang o faterion hyfforddi yn ymwneud â staff;
- rhoi cefnogaeth briodol i'r sawl sydd yn gwneud gwaith arweiniol yn y rhanbarthau; a
- gofalu y caiff staff rheng flaen gyfle i ymwneud ag arbenigwr meddygol YGAC i gyfnewid gwybodaeth a gwneud gwelliannau yn y gwasanaeth.

3.54. Tra bod rôl y Rheolwr Archwilio Clinigol Cenedlaethol yn gweithio'n effeithiol, mae hefyd yn amlwg i ni fod angen i'r Ymddiriedolaeth roi arweiniad o ran archwilio ac effeithiolrwydd clinigol ar lefel rhanbarthol a lleol. Mater i'r Ymddiriedolaeth yw pennu sut orau i wneud hynny; er enghraifft, ni fyddai'n rhaid i'r ddarpariaeth ar lefel rhanbarthol fod yn llawn-amser. Ar lefel leol, gallai'r ymdrech i wneud rheolwyr gweithrediadau clinigol yn rhan o archwilio clinigol yn ffordd ymlaen, petai modd ffurfioli'r trefniant hwnnw a gwarchod amser i'r cyfrifoldebau archwilio. Byddai'n rhaid bod yn glir am y ffordd y byddai'r swyddi hyn yn cysylltu â'r rôl genedlaethol.

3.55. Ystyrir defnydd yr Ymddiriedolaeth o bobl mewn secondiadau mewn man arall yn yr adroddiad hwn a chyfeirir ato yn Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol fel symptom o aneglurder ynghylch rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn yr Ymddiriedolaeth.

3.56. Cyfarfuom â nifer o bobl yn yr Ymddiriedolaeth a oedd yn frwd ynghylch posibiladau archwilio clinigol i gefnogi diwylliant dysgu yn yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, nid oedd y brwdfrydedd hwnnw fel petai heb eto wedi lledaenu llawer ledled yr Ymddiriedolaeth. Dangosodd parafeddygon ymrwymiad i wella eu sgiliau a mynegodd aelodau eraill y staff awydd i ymestyn eu gwybodaeth a'u profiad. Yn gyffredinol, yr oedd arwyddion calonogol fod modd datblygu diwylliant dysgu yn YGAC.

***Argymhelliad 9: Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu rôl y Cyfarwyddwr Meddygol a gosod swydd ddisgrifiad llawn amser am y swydd. Fe ddylai hefyd sicrhau bod arweinyddiaeth glinigol ar gael ar lefel Ymddiriedolaeth, ranbarthol a lleol i gefnogi'r gwelliannau mawr sydd eu hangen mewn cyd destun llywodraethu corfforaethol.***

***Argymhelliad 10: Dylai'r Ymddiriedolaeth ofalu bod adnoddau addas ar gael i alluogi'r Rheolwr Archwilio Clinigol Cenedlaethol i fwrw ymlaen gyda'r Strategaeth Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol.***

## **Canoli ar Staff**

### ***Cydraddoldeb ac Amrywiaeth***

3.57. Y mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd yn ymdrin â materion megis recriwtio staff. Fe'i cefnogir gan Bolisi Recriwtio a Dethol a pholisïau a gweithdrefnau AD eraill. Y mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn un elfen yn y rhaglen gynefino i staff newydd ac y mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu cyrsiau gloywi.

3.58. Cafwyd nad oedd amrywiaeth a chydaddoldeb wedi gwreiddio yn systemaidd yn arferion yr Ymddiriedolaeth. Dywedodd rhai aelodau staff, er y carent feddwl fod ganddynt gyfle teg a chadarn i hyrwyddo eu gyrfa yn y

gwasanaeth yn y gorffennol nad oedd hyn yn wir am rai unigolion. Dyma ddywedasant wrth yr adolygwyr:

- holwyd cwestiynau gwahanol i ymgeiswyr am yr un swydd; a
- gofynnwyd cwestiynau symlach anghlinigol i ymgeiswyr allanol.

3.59. Byddai'r staff ar eu hennill o gael llwybrau clir i staff GGC ddatblygu yn YGAC, a rhaid i'r Ymddiriedolaeth ofalu fod ei phrosesau dethol yn rhoi maes chwarae gwastad i ymgeiswyr mewnol ac allanol am swyddi GMB.

### ***Addysg a Hyfforddiant***

3.60. Y mae gan yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Addysg a Hyfforddiant sydd yn cyfeirio'n briodol at waith Agenda dros Newid a'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau. Y mae'n ddogfen ar lefel uchel a gefnogir gan gynllun gweithredu, a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am ei fonitro.

3.61. Y mae'r Ymddiriedolaeth yn annog addysg a hyfforddiant fel dull o ddatblygu'r staff yn barhaus. Fodd bynnag y mae'n golygu bod y staff yn dilyn rhai cyfleoedd datblygu yn eu hamser eu hunain. Tra gall hyn fod yn briodol lle bo staff yn ceisio gwella eu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol nid ydym yn credu ei fod yn briodol lle mae a wnelo'r datblygiad â gwella perfformiad y staff yn eu swyddi presennol. I lawer, gall fod yn anymarferol iddynt ddefnyddio eu hamser personol at ddibenion datblygu, er enghraifft oherwydd ymrwymïadau teuluol, sydd yn atal eu datblygiad. Hefyd mae prinder staff yn gyfryw fel ei bod yn anodd yn aml trefnu amser i ffwrdd.

3.62. Ymysg y cyfleoedd sydd ar gael i'r staff mae'r Cymhwyster Gofal Ambiwlans, (cwrs Gradd tair blynedd yn arwain at gymhwyster fel Parafeddyg) a'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd.

3.63. Mae hyfforddiant gorfodol i Barafeddygon a staff GMB yn cael ei fonitro gan (SALI) ac adran hyfforddi'r Ymddiriedolaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o

Barafeddygon a staff GMB eu bod yn mynychu sesiynau gloywi yn rheolaidd, ynghyd â sesiynau ail-gymhwyso gorfodol.

3.64. Dywedodd staff GGC yn aml eu bod yn teimlo nad oedd y sefydliad yn rhoi gwerth arnynt. Ar wahân i'r hyfforddiant cychwynnol, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff mai ychydig o hyfforddiant gloywi a gawsant, os o gwbl. Un o'u prif gwynion yw, am eu bod yn gwisgo lifrai werdd y gwasanaeth ambiwlans, fod disgwyl iddynt gael gwybodaeth weithio dda o gynnal bywyd sylfaenol ac nad oes modd yn hawdd dweud y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a staff gofal brys. Yn aml, nid yw staff GGC wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ers blynyddoedd. Y mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod hyn ac yn ddiweddar maent wedi cynnwys dau ddiwrnod o hyfforddiant clinigol yn eu cwrs sylfaen ac yn ystyried cynigion ar gyfer hyfforddiant dal i fyny fel rhan o gyrsiau ôl gymhwyso. Mynegodd staff ofid, tra bod ymatebwyr cyntaf yn cludo diffibriliwr ocsigen awtomatig, nad oes ganddynt hwy fawr ddim cyfarpar na hyfforddiant i ymdopi ag argyfyngau, a dywedwyd wrthym am aml i ddigwyddiad pan oedd aelodau'r cyhoedd wedi dod at staff GGC i adrodd am argyfyngau. Gydag ymgyrch y i leihau cyfraddau marwolaeth o ganlyniad i drawiadau ar y galon ymddengys o fudd i gael staff GGC wedi eu hyfforddi'n ddigonol i allu adfywio cleifion mewn dull amserol tra'u bod yn disgwyl am y tîm gofal brys.

3.65. Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth ymdrechion i gyflwyno system werthuso arferol i'r staff. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r aelodau staff y buom ni'n siarad â hwy na chawsant unrhyw fath o Adolygiad Datblygu Proffesiynol Parhaus (ADPP) na gwerthuso staff ers blynyddoedd. Cadarnhaodd llawer y carent adolygiad, petai ond i leisio barn am bryderon a phroblemau ynghylch arferion lleol. Soniodd nifer o staff rheoli na chawsant unrhyw hyfforddiant ar gyfer eu swydd bresennol a dim hyfforddiant mewn prosesau adolygu a gwerthuso staff. Adlewyrchwyd hyn hefyd ymhlith rhai o'r uwch-reolwyr a ddywedodd wrthym na chawsant unrhyw ADPP ers peth amser. Gan fod ADPP rheolaidd yn gonglfaen mewn sefydliadau effeithiol, y mae hyn yn achos cryn bryder.

## ***Amgylchedd Waith***

3.66. Y mae nifer o anawsterau ynghylch yr amgylchedd lle mae'r staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi amlinellu'r rheiny am gyflwr cerbydau. Y mae ansawdd y gorsafoedd ambiwlans a chyfleusterau'r gorsafoedd yn amrywio'n enfawr ar draws yr Ymddiriedolaeth. Gwelsom rai adeiladau modern campus mewn cyflwr ardderchog, ond yr oedd cyfran o adeiladau'r Ymddiriedolaeth yn llai na boddhaol. Yn y gorffennol, effeithiodd anallu'r Ymddiriedolaeth i gyfeirio cyllid tuag at ei ystâd ar amodau amgylchedd llawer o'r staff yn y gorsafoedd.

3.67. Y mae seilwaith rhai gorsafoedd yn hen, yn frwnt ac yn amlwg yn dadfeilio. Hefyd, cyhoeddwyd Rhybudd Gwella ar yr Ymddiriedolaeth parthed nifer o'i safleoedd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn 2003. Cyfeirir at hyn hefyd yn Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol. Yr oedd a wnelo'r rhybudd gwreiddiol â 40 eiddo, ac adeg ein hadolygiad, yr oedd 19 eiddo yn dal yn destun y rhybudd hwn. Ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth £1.4miliwn i ddatrys y materion hyn yn y flwyddyn ariannol 2006-2007.

3.68. Yr oedd trefniadau glanhau ffisegol y gorsafoedd ambiwlans yn amrywio ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mewn rhai gorsafoedd yr oedd gofyn i staff GMB a GGC lanhau pob man yn yr orsaf yn ychwanegol at eu dyletswyddau arferol, tra cyflogid glanhawyr mewn rhai eraill. Gallai'r arferiad hwn effeithio ar ofynion rheoli heintiau.

## ***Cyfathrebu***

3.69. Y mae gan yr Ymddiriedolaeth grŵp cyfathrebu dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Adeg ein hadolygiad, yr oed dy grŵp yn cynnal adolygiad o gyfathrebu yn yr Ymddiriedolaeth ac yn cynllunio strategaeth gyfathrebu newydd. Tra bod yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi dau fwletin 'SIREN' ac 'INSIGHT', y mae ganddynt o hyd nifer o broblemau cyfathrebu mewnol. Cafwyd sylwadau gan y staff gweithredol fod llawer o wybodaeth am newidiadau arfaethedig yn yr Ymddiriedolaeth yn dod o'r

cyfryngau yn hytrach nac o wybodaeth a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth er bod yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i rannau datganiadau i'r wasg gyda'u staff cyn eu cyhoeddi. Nid yw'r gadwyn gyfathrebu fewnol yn yr Ymddiriedolaeth yn ymddangos yn gadarn. Yn gyffredinol mae cyhoeddiadau o ganllawiau clinigol neu newid ymarfer fel arfer drwy gyfrwng memo teipiedig a hoeliwyd ar y byrddau hysbys. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gosod hysbys ar y wefan. Tra bod yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi ac yn cynnwys esboniadau am unrhyw newid i'w wneud, does yna ddim system o gysondeb ar draws yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y canllawiau wedi'i darllen a'i deall gan y staff perthnasol. Ond ychydig gorsafoedd sydd yn cynnwys taflenni cydnabod gyda cyfarwyddyd i bob aelod o'r staff i arwyddo i ddangos ei bod wedi gweld y cyfarwyddyd.

3.70. Er y ceisiwyd barn y staff fel rhan o ymarferion ymgynghori, teimlai rhai staff fod eu barn wedyn yn cael ei anwybyddu. Cynrychiolir llawer o'r staff gan Undebau Llafur ac y mae Undebau a gydnabyddir gan YGAC yn cyfrannu at ymgynghoriadau'r Ymddiriedolaeth am ddatblygu'r Gwasanaeth ac y maent yn aelodau ffurfiol o grwpiau perthnasol yn yr Ymddiriedolaeth.

### ***Lles y Staff***

3.71. Y mae lles y staff yn fater pryder i lawer o'r staff. Cyflwynwyd rhwydwaith gefnogi a chwmsela anffurfiol gan ddefnyddio cydweithwyr fel "clust i wrando" lawer blwyddyn yn ôl. Yr oedd gan wirfoddolwyr ymhlith y staff yn rhoi eu rhifau teliffon fel y gallai unrhyw aelod o staff siarad â hwy petai materion lles yn codi. Y mae gwasanaeth cwnsela annibynnol ar gael hefyd i'r staff. Y mae contract yr Ymddiriedolaeth gyda darparwr y gwasanaeth hwn yn gosod allan ddisgwyliad y bydd galwadau i'r gwasanaeth cwnsela yn derbyn ateb ymhen un diwrnod gwaith; fodd bynnag, dywedodd rhai staff wrthym y cymer hyd at dridiau weithiau i rywun gysylltu. Mae'r rhan fwyaf o barafeddygon yn crybwyll yr angen am amser yn ystod shifftiau i drafod profiadau a fu yn emosiynol drawmatig. Y mae cyfleusterau i'r staff gael hyd at bythefnos o amser adfer i ddod dros ddigwyddiad arbennig o drawmatig, ac nid yw hyn yn achos gwarth o gwbl.

3.72. Dywedodd nifer o staff fod tanstaffio yn rhai mannau yn creu angen i weithio oriau maith yn rheolaidd, ac weithiau gorfod adleoli i orsafoedd eraill sydd bellter i ffwrdd. Effaith hyn yw bod rhai o'r staff yn dweud eu bod yn teimlo wedi ymlâdd, a gallai hyn yn ei dro gael effaith niweidiol ar ddiogelwch a'r gofal a roddir i gleifion. Lle bo modd, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut i liniaru hyn, yn enwedig trwy edrych eto ar shifftiau a rotas. Yr ydym wedi nodi fod Cynllun Moderneiddio'r Ymddiriedolaeth<sup>6</sup> yn ymdrin â'r mater hwn trwy nifer o amcanion.

***Argymhelliad 11: Dylai'r Ymddiriedolaeth ofalu yr ymdrinnir â materion amrywiaeth wrth ddatblygu ei diwylliant, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rhywedd, hil ac anabledd.***

***Argymhelliad 12: Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei rhaglen addysg a hyfforddi gyda phwyslais arbennig ar hyfforddi a datblygu i'w ddarparu i staff GGC. Rhaid seilio cynlluniau datblygu ar ADPP a rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y cyfryw adolygiadau yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd.***

***Argymhelliad 13: : Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi a chynllunio ar gyfer gwelliannau yn ei hystâd a chyfleusterau er mwyn gofalu bod y staff yn gweithio mewn amgylchedd diogel lle cefnogir eu gwaith yn iawn.***

***Argymhelliad 14: Dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu systemau i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda'r staff ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan.***

***Argymhelliad 15: Dylai'r Ymddiriedolaeth ofalu bod digon o staff ar restrï gwaith fel y gallant gymryd toriadau gorffwys statudol yn ystod eu gwaith ac ystyried sut y gallai trefnu addasu patrymau shifft/rota yn y tymor hir leihau'r pwysau ychwanegol ar y staff.***

### **Arweinyddiaeth, Strategaeth a Chynllunio**

3.73. Mae arweinyddiaeth proffesiynol ar raddfa uwch y GAC wedi bod mewn stad o ansefydlogrwydd ers tro bellach. Mae yna amser allweddol o ansefydlogrwydd yn yr arweinyddiaeth, sydd wedi effeithio ar forâl o fewn y gwasanaeth. Mae'n ymddangos bod problemau yn deillio yn ôl yn hwy, mae'r hanes diweddar yn dangos y trafferthion mae'r Gwasanaeth wedi ymdrechi a i baratoi gwasanaeth talcen blaen. Mae manylion o'r newidiadau ar gopa'r

sefydliad wedi ei gosod allan yn blaen yn Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol. Gwelwyd o fewn y newidiadau yma pedwar person (y Prif Weithredwr blaenllaw, Prif Weithredwr gweithredol a dau Prif Weithredwr dros dro) yn cyflawni rôl Prif Weithredwr dros gyfnod o naw fis. Swyddi gwag mewn swyddi allweddol fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau a salwch o fewn swyddi allweddol arall wedi meddwl fod y gwaith dydd i ddydd yn yr Ymddiriedolaeth yn ymddangos i rhai staff talcen blaen wedi ei cyflawni yn sbeit hytrach nag gyda cynorthwyo ag ymwneud y rheolwyr uwch. Mae'r ychydig rheolwyr uwch sydd wedi aros drwy'r cyfnod anodd wedi ei gôr ymestyn yn ei gwaith.

3.74. Bu nifer o amheuon ei lefari yn ystod yr adolygiad am ddiffyg Dywedodd hyder yn y gorffennol yn uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth. Soniodd y staff am "pellter" yr uwch reolwyr yn y gorffennol a diffyg presenoldeb ar lefel gweithredi; doedd ganddynt ddim hyder yn uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth i wneud penderfyniadau effeithiol ynghyd a darpariaeth gwasanaethi gymryd penderfyniadau effeithiol am ddarparu'r gwasanaeth; doeddent yn anaml yn cael ei ymgynghori a phryd ymgynghori yn digwydd, roedd ei sylwadau a'i esboniadau yn ymddengys yn cael ei anwybyddu; ac fe fu yna steil amhersonol i weithredu newidiadau pwysig i'r gwasanaeth.

3.75. Mae cymhwyster yr Ymddiriedolaeth ar bob lefel o arweinyddiaeth a rheoli o'r cyfundrefn wedi hefyd fod yn ffactor allweddol i rhwystro gwelliannau efallai y disgwylir i ddigwydd ers Adolygiad CGI.

3.76. Er hyn, yn ystod cwrs yr adolygiad mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi Prif Weithredwr newydd sydd yn uchel ei brofiad fel rheolwr gwasanaeth ambiwlans ac fe'r ydym yn nodi'r brwdfrydedd ar bob lefel o'r Ymddiriedolaeth sydd wedi cyfarch yr apwyntiad. Yn ystod yr amser byr yn y swydd mae'n yn ymweld yn ceisio ymrwymo gyda staff gweithredol drwy ysgrifennu llythyron personol o gefnogaeth i bob un ohonynt ac ymweld a staff mewn gorsafoddedd ac yn cefnogi trafodaeth. Mae wedi cydnabod yr anhawster mae'r gwasanaeth yn ei hwynebi ac mae'n cario gobeithion llawer o staff cyffredin

---

<sup>6</sup> Paragraff 2.1.4 o fersiwn 8 o 'Amser i Wneud Gwahaniaeth'

gweithredol yr ambiwlans. Mae'r Prif Weithredwr wedi cynhyrchu cynllun moderneiddio cynhwysfawr i'r Ymddiriedolaeth, ac er yn dal yn destun ymgynghori, wedi derbyn ymateb positif gan y staff. Mae'r cynllun ei hun wedi ei osod dros degawd, er mae'r gwelliannau a ddylai ddilyn yn sgil ei weithredi yn effeithio o fewn y blynyddoedd cyntaf. Mae'r Bwrdd wedi ymateb drwy ffurfio Pwyllgor Moderneiddio, mae'r cadeirydd heb weithredi yn eglur am faent mae ei Bwyllgor a'r Bwrdd yn helpi i yrru ymlaen y Cynllun, yn ogystal sicrhau ei fod yn dal ar gwrs ac yn cael ei fonitro'n iawn.

3.77. Yn ogystal a'r Prif Weithredwr newydd, mae'r Bwrdd wedi symud i lanw'r swydd gwag Cyfarwyddwr Gweinyddol. Mae swyddi arall lle maent yn wag neu lle mae swyddi newydd yn cael ei creu fel rhan o'r cynllun moderneiddio, pryd y llanwer, ychwanegi gwellhad cymhwyster arweinyddiaeth ar y lefelau uwch.

3.78. Ar lefel Bwrdd, mae llawer wedi ei wneud i oresgyn y gwendidau ddangoswyd yn amser adolygiad CGI. Mae'r Bwrdd wedi ail gynllunio strwythur y pwyllgorau, yn enwedig mewn perthynas a llywodraethi ac ers ei apwyntiad yn Ebrill 2006, mae'r cadeirydd newydd wedi cyflwyno cyfarfodydd Bwrdd misol yn lle pedwar cyfarfod ffurfiol mewn blwyddyn lle roedd y Bwrdd, tan nawr, yn ceisio dadlwytho ei cyfrifoldebau. Mae gan Cyfarwyddwyr Anweithredol cyfrifoldebau clir a roliau gweithgar mewn cyd destun strwythdir is-bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r cadeirydd newydd wedi cyflwyno gwerthuso perfformiad a gosod meincnodi i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac yn cytuno cynlluniau'r Prif Weithredwr gydag ef. Gyda'i gilydd mae'r trefniadau yma yn nodi gwelliant pwysig yn y ffordd mae'r Bwrdd mewn sefyllfa i gymryd cyfeiriad strwythurol, perfformiad a gweithgaredd y GAC.

3.79. Mae'r gwaith sydd ar ôl i'w ymwneud ag adnewyddi rheolwyr yn y canol, llinell gyntaf a lefel arolygi. Yn y gorffennol mae'r trafferthion mae'r Ymddiriedolaeth wedi profi ynghyd ag arweinyddiaeth a rheoli yn bresennol ar bob lefel o'r cyfundrefn. Yn rhanbarthol ac ar lefel lleol mae'r anhawsterau yn nodweddiadol o swyddi rheoli gwag, gôr ddefnydd o secondio (sydd dim ond yn rhan datrys un problem drwy creu un arall ac yn aml yn tynnu para

feddygon sydd yn staff cymwys o'r talcen flaen pwysig), dim neu hyfforddiant rheoli digonol i rheolwyr am y tro cyntaf ac ychydig o hyfforddiant dilynol i rheolwyr profiadol, diffyg roliau clir rheoli ac heb ffiniau clir i rheoli llinell neu tîm. Bydd yn rhaid i'r broses adnewyddu cyfeirio at y pynciau yma. Un tasg bwysig cynnar fydd i wneud yn glir beth a ddisgwylir oddi wrth rheolwyr a'r hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau ei bod a'r adnoddau i draddodi newidiadau personol a chyfundrefnol.

3.80. Mae angen rhagor o waith i ffurfio un, modern a hyrwyddo diwylliant ar draws yr holl weithgareddau'r Ymddiriedolaeth a'r rhanbarthau. Fe wnaeth yr adolygiad uniaethu darnau hen o'r gelfyddyd a oedd mewn bodolaeth ac yn edrych yn ôl i'r cyn gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru a wnaeth beidio a gwerthuso y gwahanol gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth, fel y GMB a GGC, heb ddeall yr angen i ymrwmo claf a'r cyhoedd yn sensitif ac yn effeithiol, a heb cymhwyso neu dangos ymddygiad perthnasol i cydbwysedd cenedl o fewn ei weithlu. Bydd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth i gymeryd camau positif i daclo y rhain fel rhan o greu celfyddyd unol a modern.

***Argymhelliad 16: Dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau penodi i swyddi rheoli gwag ac wedi nodi'r swyddi hynny sydd yn gorfod newid neu gael eu creu dan y Cynllun Foderneiddio, dylai lenwi'r swyddi hynny yn ddiymdroi.***

***Argymhelliad 17: Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau fod ei threfn gynefino a datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer gwaith rheoli ac arwain yn ymdrin â'r angen i greu a chynnal rheolwyr sydd yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud eu gwaith yn effeithiol.***

***Argymhelliad 18: Dylai'r Ymddiriedolaeth weithredu ymhellach i greu diwylliant yn YGAC fydd yn sicrhau ei gallu i gyflwyno strategaeth gyffredin, cefnogi rheolwyr gweithredol rhanbarthol a gwella ysbryd y staff.***

***Argymhelliad 19: Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal adolygiad llawn, a gychwynwyd gan ei chynllun moderneiddio, o gyfraniad GGC yn YGAC, gan nodi'r gwerthoedd cyffredin a'r synergeddau gyda rhannau eraill y gwasanaeth, gan gynnwys yr integreiddio disgwylieidig gyda Galw Iechyd Cymru. Yna, dylai'r Bwrdd benderfynu'n ffurfiol ar***

**arweinyddiaeth a rheolaeth GGC yn y dyfodol, ynghyd â'r berthynas rhwng swyddogaethau, staff a rôl GGC a GMB.**

**Canfyddiadau Adolygiadau CGI ac AGIC**

3.81. Cyhoeddodd CGI adroddiad ei hadolygiad ym mis Chwefror 2004, rhyw ddwy flynedd a haner cyn cychwyn y cyfweiliadau ffurfiol a'r gwaith arsylwi ar gyfer yr Adolygiad Sicrwydd Arbennig hwn.

3.82. Er na ddylid cymharu'r ddau ymarferiad yn uniongyrchol, y maent yn archwilio'r un meysydd o lywodraethu corfforaethol a bwriadwyd yr adolygiad hwn hefyd i ystyried y cynnydd a wnaeth yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'i gynllun gweithredu CGI.

3.83. Asesodd CGI saith maes llywodraethu corfforaethol a seilio eu hasesiad mewn perthynas â phob un o'r meysydd hynny a nodwyd lle teimlai y dylai'r sefydliad fod o ran datblygu a pherfformiad yn erbyn graddfa 4 pwynt (gweler Tabl 1 isod sy'n dangos yr asesiad a wnaethpwyd gan CGI yn 2004).

<b>Tabl 1: Asesiad CGI*</b>	
<b>Adolygiad Llywodraethu Corfforaethol CGI</b>	<b>Adroddiad CGI YGAC 2004</b>
1. Ymwneud cleifion	i
2. Rheoli risg	ii (a)
3. Archwilio clinigol	i
4. Staffio a rheoli staff	ii (c)
5. Addysg a hyfforddiant	ii (c)
6. Effeithiolrwydd clinigol	ii (a)
7. Defnyddio gwybodaeth	i

\*Mae esboniad o raddfa asesiad CGI ar gael yn Atodiad A

3.84. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, y mae'n glir y cafodd Adolygiad CGI ryw effaith ar yr Ymddiriedolaeth. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion penodol a nodwyd gan CGI gan yr Ymddiriedolaeth a bu hwn yn destun adolygu rheolaidd gan yr Ymddiriedolaeth i weld pa gynnydd a wnaed. Gwnaed argymhellion CGI yn rhan o Gynllun Clinigol Tair Blynedd yr

Ymddiriedolaeth, ac adolygir cynnydd yn ei erbyn yn chwarterol gan bwyllgor llywodraethu'r Bwrdd.

3.85. Gwnaed cynnydd mewn perthynas â datblygu dogfennau polisi i feysydd lle nad oedd rhai gynt. Esiampl dda yw cynhyrchu Strategaeth Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol yr Ymddiriedolaeth. Cymerodd yr Ymddiriedolaeth rai camau hefyd i weithredu'r strategaethau a greodd. Fodd bynnag, erys llawer i'w wneud i wreiddio archwilio clinigol yn yr Ymddiriedolaeth. Yn benodol, mae angen mynd i'r afael â materion adnoddau, technoleg ac integreiddio. Ar sail ein hasesiad, mae'n debygol, petai methodoleg CGI yn cael ei gymhwyso a'r un ffurf ar asesu â'r un a ddefnyddiwyd gan CGI yn cael ei ddefnyddio, y dangosai'r Ymddiriedolaeth beth gwelliant yn ei sefyllfa o'i gymharu â'r hyn oedd yn Chwefror 2004, er y dywed ein hasesiad ni nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi symud ymlaen i lefel iii ar y meysydd llywodraethu corfforaethol a aseswyd. Yr oedd ymwneud cleifion a defnyddio gwybodaeth yn feysydd arbennig o wan.

3.86. I grynhoi, cawsom fod YGAC wedi symud ymlaen ers adolygiad CGI mewn perthynas â chynhyrchu dogfennau yn gosod allan bolisiau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, ni chafwyd cymaint o lwyddiant o ran cael gwir newid ledled y sefydliad. Gweithredwyd rhai elfennau polisi canolog yn rhai rhannau o'r sefydliad, ond cawsom gryn ddiffyg cysondeb ar waith, a methiant o ran rhai datblygiadau yn yr Ymddiriedolaeth i gael effaith ar draws YGAC gyfan. Fel adroddwyd yn rhannau o'r adroddiad yma yn ein barn ni rhaid i'r Ymddiriedolaeth nawr roi sylw i'r canlynol:

- gwella gallu ac ansawdd ei arweinyddiaeth a'i rheolaeth ar bob lefel;
- datblygu un diwylliant yn YGAC;
- cynyddu gallu'r Ymddiriedolaeth i ddeall beth mae'n wneud h.y. gwneud y peth iawn gyda dal a dadansoddi data; a
- gwella adnoddau cyfalaf y Gwasanaeth – ystâd, cerbydau a thechnoleg.

3.87. Gwnaethom argymhellion mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn i helpu'r Ymddiriedolaeth i fwrw ymlaen â hyn.

## **Pennod 4: Asesu gallu YGAC i wella deilliannau i gleifion**

4.1. Y mae'n glir fod modd gwella nifer y cleifion y gofelir amdanynt gan YGAC a allai oroesi argyfyngau iechyd difrifol trwy gymhwyso yn gyson yr ymatebion modern gorau i ddigwyddiadau megis trawiadau ar y galon.

4.2. Fodd bynnag, mae'n anos asesu a chytuno i ba raddau y gellir llwyddo i wella fel hyn. Amcangyfrifodd un asesiad fod modd achub 500 o fywydau yn ychwanegol y flwyddyn. Seiliwyd hyn ar ragamcanu'r niferoedd o fywydau y gellid eu harbed gan YGAC petai'n perfformio ar yr un lefel â'r gwasanaethau gorau yn y byd (fel Reno, Nevada). Mae llwyddo i wella fel hyn yn rhagdybio y bydd YGAC yn defnyddio mwy o thrombolysis, gwella'r ffordd mae'n adfywio cleifion a gwell gofal trawma.

4.3. Dengys data cyhoeddedig a gasglwyd o Gymru a'r Gwasanaethau Ambiwylans yn Lloegr<sup>7</sup> mewn perthynas â thrombolysis fod YGAC yn 2005-2006 yn darparu 10% o achosion teilwng thrombolysis cyn ysbyty i gymharu a chyfartaledd o 18% yn Lloegr. Dechreuodd YGAC ddefnyddio thrombolysis fymryn yn hwyrach na'r rhan fwyaf o Wasanaethau Ambiwylans Lloegr ac yr oedd eu perfformiad wedi dwy flynedd fymryn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ymddiriedolaethau eraill yn y DU pan oeddent hwy ar bwynt cyflwyno tebyg. Petai perfformiad YGAC yn cyrraedd y lefelau a geir yn awr mewn mannau eraill yn y DU, fe geid cynnydd cyfatebol yn nifer y cleifion a allai oroesi trawiad ar y galon. Ers gwneud y cyfrifiadau gwreiddiol, datblygodd arfer clinigol yn YGAC. Yn benodol, cynyddodd cyfran y parafeddygon all wneud thrombolysis, a rhagwelir y bydd pob parafeddyg wedi hyfforddi i thromboleiddio cleifion erbyn diwedd 2006.

4.4. Yn 2006 archwiliodd YGAC y gwelliannau o ben i ben mewn cyfraddau goroesi fyddai'n deillio o adfywio cleifion yn llwyddiannus. Awgrymodd y

<sup>7</sup> Prosiect Archwilio Cenedlaethol Cnawdnychiad Myocardiaidd (MINAP), pumed adroddiad cyhoeddus Mehefin 2006 'How the NHS Manage Heart Attacks' Coleg Brenhinol y Ffisigwyr

dadansoddiad hwnnw y gellid arbed rhwng 9 a 77 o fywydau yn ychwanegol petai YGAC yn codi ei pherfformiad i'r lefel a gafwyd yn yr Alban<sup>8</sup>.

4.5. Mae archwilio'r data a gynhyrchwyd o'r ffynonellau gwahanol hyn yn arwain at wahanol amcangyfrifon o botensial cynyddu cyfraddau goroesi cleifion. Y mae nifer o ffactorau yn achosi'r gwahaniaethau hyn. Dyma'r rhai a nodwyd gan AGIC:

- ansawdd y data a gofnodwyd gan YGAC;
- defnyddio cymaryddion gwahanol;
- defnyddio data o amserau gwahanol;
- gwall ystadegol, nad ystyriodd y gwahaniaeth rhwng risg absoliwt a chymharol ;
- gwahaniaethau mewn cyfraddau adfywiad cardiopwlmonari (AC) gan bobl gerllaw rhwng Cymru a'r Gwasanaethau yn Lloegr sydd yn perfformio orau.

4.6. Edrychir i mewn yn fanylach i'r materion hyn isod.

### **Ansawdd Data**

4.7. Amrywiol yw ansawdd y data a gedwir gan YGAC. Hefyd, rhaid cael peth o'r data a ddefnyddir i asesu ansawdd perfformiad o ran deilliannau i gleifion o gronfeydd data ysbytai. Prif ffynhonnell y data yw'r CCC a lenwir gan griwiau ambiwlans. Gall nifer o bethau effeithio ar ansawdd y data:

- Mae peth amrywiaeth o ran llenwi'r ffurflen trwy orfod dibynnu ar unigolion yn ei llenwi dan amgylchiadau sydd yn aml yn straenllyd (risg gyntaf i ansawdd data);

---

<sup>8</sup> Y mae un astudiaeth yn yr Alban gyfradd goroesi at bwynt gadael yr ysbyty o 6.7% tra bo dadansoddiad YGAG yn awgrymu bod gan Gymru gyfradd o 3.1%. Mae dau astudiaeth yng ngwahanol rhan o Lloegr yn dangos cyfradd o 2.2% a 4.6%.

- Wedi hyn, mae'r cofnod a lenwir â llaw yn cael ei throsglwyddo i ganolfan fewnbynnu data ganolog yn Abertawe, sydd yn cyflwyno'r risg o golli'r cofnod wrth drosglwyddo (ail risg i ansawdd data);
- Yn y ganolfan fewnbynnu data, mae cerdyn cofnod y claf yn cael ei sganio'n electronig i gronfa ddata'r Ymddiriedolaeth. Deellir bod gwallau yn codi yn y cyfnod sganio (trydydd risg i ansawdd data).

4.8. O ganlyniad, y mae amheuan a yw'r data a ddelir ac a fewnbynnir i systemau'r Ymddiriedolaeth yn gyflawn. Yr oedd y dadansoddiad a arweiniodd at yr amcangyfrif y gellid arbed 500 o fywydau ychwanegol bob blwyddyn yn cydnabod yr anawsterau hyn: yn benodol, mewn perthynas â'r hyn y credir sydd yn dan adrodd am gnawdnychiad myocardiaidd (CM) yng Nghymru. Yr oedd felly yn cynnwys gweithio allan gyfradd ddisgwyliedig CM i boblogaeth Cymru ar sail ffigyrau Swydd Stafford, oedd yn gyfarwydd i'r tîm meincnodi. Wrth gwrs, mater o farn yw i ba raddau y mae poblogaeth Cymru yn rhannu'r un nodweddion â phoblogaeth Swydd Stafford, neu unrhyw boblogaeth gymharol arall.

### ***Cymaryddion***

4.9. Ni chafwyd cytundeb ar beth yw'r cymaryddion perfformiad mwyaf priodol. Er enghraifft mae'r dadansoddiad y deilliodd yr amcangyfrif o 500 ohono yn cymharu perfformiad YGAC parthed dychweliad cylchrediad digymell (DCD) i gleifion ar y pwynt pan dderbyniwyd hwy i'r ysbyty â'r llwyddiant a gafwyd yn Reno, Nevada, UDA. Mae'r dadansoddiad ddangoswyd bod canran o gleifion a chyflawnodd DCD wrth y rhai lle roedd adfywio wedi ei gynnig yn 30% yn Reno a 25% yn Sir Stafford. Y ffigurau i Gymru oedd 11% a chyfartaledd Lloegr oedd hefyd yn 11% ond ar y llaw arall, mae dadansoddiad yr Ymddiriedolaeth ei hun yn cymharu perfformiad i eiddo Gwasanaeth Ambiwlans yr Alban neu'r perfformiad cyfartalog ar gyfer holl Ymddiriedolaethau'r DU.

## ***Gwallau Ystadegol***

4.10. Y mae'r materion sy'n ymwneud ag effaith triniaethau a chymharu camau a gymerir gan weithwyr y gwasanaeth iechyd yn gymhleth. Gall amcangyfrifon effaith newidiadau mewn perfformiad fod yn destun camgyfrif o ganlyniad i wallau ystadegol. Ymddengys bod un gwall o'r fath yn effeithio ar y dadansoddiad a arweiniodd at amcangyfrif arbed 500 o fywydau. Mewn perthynas ag un elfen o'r cyfrifo hwnnw, ymddengys bod ffigur sy'n cyfeirio at risg gymharol wedi ei gymhwyso i'r data fel petai'n ffigur risg absoliwt<sup>9</sup>. Effaith y gwall hwn oedd gôr amcangyfrif rhyw 130 yn erbyn ffigur o 500.

## ***Adfywiad cardiopwlmonari gan bobl yn sefyll gerllaw***

4.11 Ffactor ychwanegol a all ddylanwadu ar y gwahaniaeth mewn cyfraddau DCD rhwng YGAC a Swydd Stafford yw'r gyfradd isel iawn o adfywio gan bobl yn sefyll gerllaw (cyn i'r ambiwlans gyrraedd) yng Nghymru. Y mae Swydd Stafford yn dyfynnu cyfradd o 17% o'i chymharu â 3% (casgliad archwiliad YGAG yn 1996) a ddogfennwyd ar gyfer Cymru. Dangoswyd fod AC gan bobl yn sefyll gerllaw yn cynyddu cyfraddau goroesi gymaint â theirgwaith. Gall y gwahaniaeth mewn cyfraddau AC gan bobl yn sefyll gerllaw rhwng y ddwy ardal gyfrif hefyd i rannau gyfrannu tuag at y gwahaniaethau mewn cyfraddau DCD rhwng Swydd Stafford a Chymru.

4.12. I grynhoi, tra y mae'n amlwg y gellid arbed mwy o fywydau o ganlyniad i ddatblygiadau a gwelliannau yng ngwasanaethau YGAC, ond y mae union nifer yn destun dadl am y rhesymau a osodwyd uchod. Byddai unrhyw ymgais i gynhyrchu amcangyfrifon pellach ar yr adeg hon yn wynebu'r un anawsterau a welwyd uchod ond mae'n glir bod angen gwybodaeth cywir a dibynadwy yn y dyfodol, nid llai ond i helpi rheolwyr YGAC i gynllunio gwasanaethau a gwella perfformiad ond hefyd i'r Ymddiriedolaeth fedru cofnodi gwelliannau dibynadwy o nifer y goroesiadau yn gymharol a perfformiad gwasanaethau ambiwlans eraill. Bydd mabwysiadu'r argymhellion canlynol yn cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei nod.

---

<sup>9</sup> Mae Atodiad B yn cynnwys esboniad ychwanegol o risg absoliwt a pherthnasol.

**Argymhelliad 20:** *Dylai YGAC weithredu i ofalu bod data am berfformiad clinigol o ansawdd digonol fel bod modd ei ddadansoddi'n ddefnyddiol i wella perfformiad yr Ymddiriedolaeth.*

**Argymhelliad 21:** *Dylai YGAC nodi a gweithredu proses archwilio ar gyfer meysydd clinigol allweddol a fydd yn cynhyrchu gwybodaeth ddibynadwy am ddeilliannau gofal cleifion.*

**Argymhelliad 22:** *Dylai Bwrdd YGAC gytuno ar feincnodau priodol i gymharu perfformiad YGAC er mwyn amlygu manau i wella mwy ar berfformiad.*

**Argymhelliad 23:** *Dylai Bwrdd YGAC sicrhau fod adnoddau ar gael i gynyddu cyfraniad YGAC i oroesi cleifion sy'n dioddef argyfwng iechyd, megis mwy o allu i wneud thrombolysis.*



## **Pennod 5: Digwyddiad 2003 ac Effeithiolrwydd Systemau'r Ymddiriedolaeth i roi Adroddiad am Ddigwyddiadau**

5.1. Crynhoir y digwyddiad a roes fod i'r ymchwiliad hwn yn y bennod gefndir i'r adroddiad hwn. Wedi hynny, cafwyd o leiaf un digwyddiad pellach lle cludwyd claf i gyfeiriad cartref anghywir. Hefyd, yr ydym yn ymwybodol o un digwyddiad lle gadawyd claf mewn cerbyd GGC wedi ei barcio mewn gorsaf ambiwlans ar derfyn shifft. Trwy ddamwain yn unig y daethpwyd o hyd iddi yn y cerbyd.

5.2. Yn dilyn y digwyddiad yn 2003, cynhaliodd YGAC ymchwiliad ac adroddiad ffurfiol, lle cafwyd nifer o argymhellion, sef:

- defnyddio criwiau unswydd sydd yn adnabod y cleifion, neu o leiaf un aelod o'r criw sydd yn gyfarwydd â'r cleifion, ar gyfer gwaith arferol GGC lle bynnag y bo modd;
- system ffurfiol o drefnu cleifion i mewn ac allan o ysbytai dydd sydd yn safonol ledled Cymru;
- trosglwyddo cleifion sydd yn cael eu trin mewn canolfannau i'r Henoed â Salwch Meddwl (HSM) i ofalwr medrus adeg eu dychwelyd adref;
- defnyddio bandiau arddwrn i gleifion.

### **Adolygiad Annibynnol o'r Digwyddiad**

5.3. Daeth Adolygiad annibynnol gan Swyddfa Ranbarthol De Ddwyrain Cymru o Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r casgliadau canlynol:

- (i) *'Cefnogi'r camau sydd eisoes ar y gweill gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, sef:*

- i.i Nodi staff unswydd i gofnodi cleifion i mewn ac allan o Ysbytai Dydd.*
  - i.ii Hysbysu criwiau ambiwlans o'u cyfrifoldebau i ofalu bod cleifion yn cael eu nodi'n glir iddynt gan staff yr Ysbyty Dydd.*
  - i.iii Na ddylid gadael cleifion HSM/ysbyty Dydd ar eu pennau eu hunain gan griwiau ambiwlans onid oes cyfarwyddiadau clir i wneud hynny.*
  
- (ii) Mae angen adolygu dulliau adnabod cleifion mewn Ysbytai Dydd. Y mae'n hanfodol ystyried materion moesegol i gleifion HSM; fodd bynnag, awgrymir adolygu'r modelau a ddefnyddir mewn mannau eraill ledled Cymru a'r DU i weld sut y mae modd mabwysiadu dulliau adnabod clir tra'n cadw urddas y claf (Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro eu bod wedi dechrau adolygu dulliau o adnabod cleifion).*
  
- (iii) Fod rhestr y Ganolfan Reoli Ambiwllans a roddir i aelodau'r criw ambiwlans sydd yn rhoi enwau a chyfeiriadau'r cleifion sydd i'w cludo hefyd yn nodi a ddylid disgwyl rhywun i ofalu am y claf pan gaiff ei d/dychwelyd adref.*
  
- (iv) Adolygu'r broses o ddatblygu rhestr cleifion gan y Ganolfan Reoli Ambiwllans ar y cyd â'r Uned Ysbyty Dydd, a bod unrhyw newidiadau i'r rhestr yn cael eu cadarnhau gan y Ganolfan Reoli Ambiwllans yn ôl i'r Uned Ysbyty Dydd.*
  
- (v) Y dylai Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru asesu sut y mae ei staff yn dehongli ystyr 'lle diogel', a deall yn glir a ellid ystyried ambiwlans yn lle diogel petai'r un math o beth yn digwydd yn y dyfodol.*
  
- (vi) Ail asesu'r canllawiau dros dro am adrodd am ddigwyddiadau difrifol, er mwyn gofalu y gellir cyflwyno gweithdrefnau dwysau cywir i osgoi*

*unrhyw amwysedd ynghylch a ddylid adrodd am ddigwyddiadau trwy'r system hon.*

- (vii) Fod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn cynnal archwiliad o gleifion sydd wedi eu gadael yn y cyfeiriad anghywir ac yn cymryd unrhyw gamau priodol sydd eu hangen o ganlyniad i'r archwiliad.*
- (viii) Nid yw'n amlwg o'r Adolygiad a gynhaliwyd hyd yma a yw'r amgylchiadau ynghylch y digwyddiad ar 20 Awst 2003 yn Ysbyty Dydd y Morfa wedi eu cyfyngu i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a'u perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. I osgoi'r fath beth rhag digwydd ledled Cymru, awgrymir y dylid ystyried adolygiad cyffelyb o systemau a gweithdrefnau ledled yr Ymddiriedolaethau yng ngweddill Cymru i ofalu nad yw digwyddiadau o'r fath yn debyg o godi yn y dyfodol*
- (ix) Awgrymir hefyd y dylid gwneud mwy o waith i asesu sut y gellid integreiddio gwasanaethau GGC yn agosach â gwasanaethau Ysbytai Dydd, megis cael aelodau criwiau yn aelodau llawn o'r tîm gofal cleifion.'*

## **Ymateb YGAC i'r Adolygiad Annibynnol**

5.4. Adolygodd AGIC adroddiad ymchwiliad YGAC a'r Adolygiad Annibynnol. Llwyddodd y rhain i weld y materion allweddol y mae angen ymdrin â hwy i osgoi digwyddiadau tebyg i'r rhai dan sylw. Yng ngoleuni hynny, cynhyrchodd YGAC Bolisi a Gweithdrefn Trosglwyddo Cleifion ar gyfer Unedau Dydd ac HSM sydd yn datgan fel a ganlyn:

- (i) 'Pan fydd disgwyl i brif ofalwr dderbyn claf adeg ei ddychwelyd, ac nad yw ar gael, ac nad oes ail ofalwr ar gael chwaith, dylid cysylltu â'r gofalwr/wyr os yw eu manylion yn hysbys, er mwyn trefnu amser dychwelyd. Yna gellir gwneud penderfyniad naill ai i aros am y gofalwr*

*neu fynd â'r claf yn ôl i'r uned os oes staff yno o hyd neu i'r adran D&A agosaf (os bydd gan y claf dag adnabod, h.y., band garddwrn, yna dylid ei adael arni/o). Ni ddylid gadael cleifion heb rywun gyda hwy onid oes cyfarwyddiadau penodol i wneud hynny. Dylid ceisio cysylltu â'r HSM/Dydd lle bydd gan staff yr ysbyty, efallai, fwy o wybodaeth a lle gallant gynnig cyngor.*

- (ii) Cyfrifoldeb y ganolfan rheoli ambiwlans fydd ceisio caniatâd gan yr uned ryddhau (os bydd yr uned ryddhau ar gau, yna bydd y gweithdrefnau yn (i) yn gymwys) wrth ystyried gadael claf heb rywun gydag ef/hi. Rhaid cofnodi hyn yn log y ganolfan reoli gan nodi'r dyddiad, amser, enw a graddfa'r staff ac unrhyw nodiadau cyffredinol eraill.*
- (iii) I'r cleifion hynny y tybir eu bod yn fregus, trwy gytundeb gydag Ymddiriedolaethau'r ysbyty, rhaid nodi'r cleifion pan gyrhaeddant yr uned gyda dull adnabod cydnabyddedig er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ynghylch eu henwau, cyfeiriad ac enw'r gofalwyr. Erys nodi'r claf yn gywir yn gyfrifoldeb i'r unedau HSM/Dydd priodol.*
- (iv) Pan ddychwelir cleifion o'r unedau HSM/Dydd, nodir pob claf yn unigol i staff yr ambiwlans gan y staff yn yr unedau adeg trosglwyddo er mwyn cadarnhau pwy yw'r claf a lle mae'n mynd. Cytunir gydag unedau unigol ar y dogfennau priodol i gofnodi'r broses hon.*
- (v) Pan fydd aelod/au staff newydd y gwasanaeth ambiwlans neu rai a drosglwyddwyd yn cludo cleifion i uned HSM/Dydd neu pan ychwanegir claf newydd at y rhestr, yna rhaid i'r YGAC gynnal hyfforddiant cynefino priodol am weithdrefnau'r uned ac anghenion y claf. Y Swyddog Ambiwllans Lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau y cynhaliwyd yr hyfforddiant cynefino a bod y dogfennau priodol wedi eu llenwi*
- (vi) I osgoi anghysonderau pan fydd gan bob Ymddiriedolaeth wahanol restrï o gleifion, dylid cadw at y gweithdrefnau a ganlyn:*

- i.i Pan gyrhaeddir yr unedau HSM/Dydd, rhestr presenoldeb y gwasanaeth ambiwlans fydd patrwm y ddalen a ddefnyddir gan yr uned i ddogfennu manylion y cleifion a gludwyd atynt.*
  - i.ii Ar gyfer y siwrne yn ôl, rhestr yr unedau HSM/Dydd fydd patrwm y ddalen a ddefnyddir gan y gwasanaeth ambiwlans i ddogfennu manylion y cleifion sydd i'w dychwelyd adref home.*
  - i.iii Lle bo gan gleifion fandiâu arddwrn, cyfrifoldeb staff YGAC fydd eu tynnu unwaith y ceir cadarnhad fod y claf yn y cyfeiriad cywir a/neu wedi ei g/adael yng ngofal y gofalwr enwebedig. Cedwir bandiau garddwrn yn yr orsaf am gyfnod o bythefnos a chânt eu storio yng nghyprddau Cofnodion Clinigol y Claf gan y Swyddog Ambiwllans Lleol unwaith iddynt gael eu cyfatebu yn erbyn y taflenni siwrne priodol.*
- (vii) Dylai'r unedau HSM/Dydd geisio neilltuo staff unswydd fel pwynt cyswllt i gadarnhau manylion y cleifion. Y mae'n hollbwysig nad oes gan y gwasanaeth ambiwlans amheuaeth o gwbl am gyfeiriad dychwelyd y claf a manylion gofalwr/wyr os disgwylir un neu fwy yn y cartref pan fydd y cleifion yn dychwelyd.*
- (viii) Cynhelir asesiadau risg achlysurol am gadernid y system ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth GIG briodol er mwyn gofalu bod y systemau yn dal yn hyfyw ac yn ddiogel.*
- (ix) 'Cynhelir archwiliadau o bryd i'w gilydd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau cydymffurfio â gweithdrefnau lleol.'*

5.5. Mae'r trefniadau a gyflwynwyd rhwng YGAC ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn sgil digwyddiad penodol yn 2003, a drafodwyd a chytunwyd gan pob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru ac fe'u gyflwynwyd ar draws Cymru. Ymrwymwyd y weithred gan Ymddiriedolaeth GIG Cymreig ac fe'i chyflwynwyd ar draws Cymru. Ymrwymwyd y weithred hon gan Gylchlythyr Iechyd Cymreig (WHC[2005]0113) sy'n mynnu bod

Ymddiriedolaethau i sicrhau bod y trefniadau a gytunwyd wedi ei mabwysiadu ym mhob uned YD ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau cydsyniad.

### **Canfyddiadau ac Argymhellion AGIC**

5.6. Yn ystod ein gwaith arsylwi, nododd yr adolygwyr yn arbennig y gweithdrefnau oedd yn cael eu defnyddio i drin cleifion bregus a daethom i'r casgliad na fabwysiadwyd y polisi a'r weithdrefn a amlinellir uchod yn gyson ar draws YGAC.

5.7. Y mae cleifion bregus yn defnyddio GGC i fynd i amrywiaeth mawr o glinigau, nid Unedau Dydd HSM yn unig. Nid oedd rhestri siwrneiau ar gyfer criwiau GGC a edrychwyd arnynt fel rhan o'r adolygiad hwn fel petaent yn nodi cleifion bregus a nid oeddent yn cynnwys manylion gofalwyr na defnydd arall penodol i helpu'r criw i ofalu na fyddai rhywbeth yn digwydd. Nid oedd trosglwyddo ffurfiol y cleifion yn digwydd yn gyson gan yr holl griwiau a staff yr ysbytai. Nid oedd adnabod trwy fandiau arddwrn yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn. Parthed hyn, cawsom rai criwiau oedd yn defnyddio'r dull hwn o adnabod cleifion fel mater o arfer, criwiau eraill oedd yn fwy dethol wrth ddefnyddio bandiau garddwrn, ac eraill nad oedd yn eu defnyddio o gwbl. Yr oedd dadleuon dros beidio â'u defnyddio yn canoli ar bryder am urddas y claf a phryderon y byddai gosod bandiau arddwrn heb ganiatâd yn gyfystyr ag ymosod.

5.8. Gwelsom anghysonderau yn y ffordd yr oedd y criwiau ambiwlans yn defnyddio'r rhestri siwrneiau. Yr oeddem yn disgwyl o leiaf gweld y taflenni hyn yn cael eu defnyddio i gofnodi'r amseroedd y byddai'r cleifion yn cael eu codi o'u cartrefi, amser cyrraedd yr ysbyty, amser codi o'r ysbyty ac amser cyrraedd adref, gyda gwiriad i ddangos fod y claf wedi ei ddychwelyd i ofal rhywun priodol. Ni welsom y rhestri siwrneiau yn cael eu defnyddio'n gyson felly. Mewn geiriau eraill, ni allem ddweud fod YGAC yn sefydlu trywydd archwilio i'w gwaith GGC.

5.9. Yng ngoleuni ein hadolygiad y mae'n amlwg fod angen gwneud mwy o waith i ddyfeisio systemau diogelach a, os bo modd, 'di-ffael' i reoli cleifion bregus gan staff GGC ac i ofalu bod y systemau a sefydlir yn cael eu gweithredu a'u cymhwyso yn gyson ar draws YGAC gyfan.

5.10. Mewn casgliad, tra bod yr Ymddiriedolaeth wedi adnewyddi a mabwysiadu polisïau newydd i'r GGC yn sgil y digwyddiad yn 2003, nid yw y rhain bellach yn ddigon cadarn ac nid ydynt yn cael ei gweithredi a chysondeb. O ganlyniad mae yna risg parhaol y gall digwyddiad tebyg ddigwydd yn y dyfodol. Mae angen felly i'r Ymddiriedolaeth ail adolygu ei polisïau, cryfhau monitro ei gweithredi a'i estyn i gynnwys pob grŵp o gleifion er mwyn rheoli risg tyn fwy effeithiol.

5.11. Parthed System yr Ymddiriedolaeth o Adrodd am Ddigwyddiadau, y mae'r trefniadau adrodd am ddigwyddiadau yn briodol. Y mae'n amlwg fod adroddiadau yn cael eu gwneud am ddigwyddiadau a gwelsom esiamplau da o staff yn 'adrodd eu hunain' am ddigwyddiadau. Er hyn, dwedodd rhai staff bod pwysau y dydd gweithio ddim yn ei gwneud yn rhwydd. Yr oedd yn amlwg fod 'diwylliant dim bai' sydd yn annog staff i roi adroddiad am gamgymeriadau yn tyfu.

5.12. Yn gyffredinol, credwn fod yr Ymddiriedolaeth wedi symud ymlaen o ran rhoi adroddiadau am ddigwyddiadau, ond yr erys gwaith i'w wneud i ofalu bod staff yn blaenoriaethu ffurflenni ADC ac yn cael eu perswadio am werth gwneud hynny i'r Ymddiriedolaeth ac iddynt hwy.

***Argymhelliad 24: Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei gweithdrefnau parthed cleifion bregus i gynnwys pob claf o'r fath, gan gydnabod y byddant yn cyrchu ystod lawn darpariaeth y GIG a chymdeithasol.***

***Argymhelliad 25: Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau fod trefniadau adnabod a throsglwyddo cleifion bregus rhyngddynt hwy a gofalwyr neu rannau eraill o'r GIG yn cael eu ffurfioli a'u rhedeg yn gyson ledled Cymru.***

***Argymhelliad 26: Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau adrodd cyson am ddiwyddiadau annisgwyl a gallu YGAC i ddysgu ohonynt. Y mae ymateb personol i'r staff yn un ffordd allweddol o ofalu yr adroddir am bob diwyddiad.***

**Pennod 6: Crynodeb o Argymhellion yn Dangos y Berthynas ag Adolygiad CGI yn Chwefror 2004 ac Argymhellion Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol yn Rhagfyr 2006**

Argymhellion AGIC	Argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol	Nod Cynllun Moderneiddio YGAC
1. Dylid atgyfnerthu Trefniadau YCCh yr Ymddiriedolaeth trwy adolygu prosesau'r Ymddiriedolaeth o ymwneud â chleifion a'r cyhoedd fel sail o wybodaeth l'w phrosesau gwneud penderfyniadau.	12,19(a)	3.2
2. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei threfniadau i gynllunio a rheoli GGC ac yng ngoleuni hynny gyflwyno rhestri rheoli a staffio'r fflyd i addasu ei hadnoddau i gwrdd â'r galw ar yr adegau prysuraf. Trwy ymgynghori â'i chontractwyr a chleifion dylai ofalu bod y trefniadau yn ddigon hyblyg i gwrdd â'u hanghenion.	15,17(a), 17(c), 19(a), 19(b), 19(c), 19(d), 20,26	2.1.4; 2.6.4; 2.3.1
3. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu safon ei fflyd a gweithredu rhaglen o gynnal ac adnewyddu a fydd, dros y tair blynedd nesaf, yn esgor ar safonau mwy dibynadwy a mwy o gysur i gleifion.	21(a), 28	2.6.4; 2.6.5
4. Dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'r CIC, ysbytai, darparwyr gofal sylfaenol a'r cyhoedd i wneud yn siwr fod gan y cleifion y wybodaeth mae arnynt ei angen am wasanaethau YGAC ac annog aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio ei gwasanaethau yn briodol.	5(b)	3.3.4; 3.2
5. Dylai'r Ymddiriedolaeth fonitro ei systemau er mwyn gofalu bod digon o lifrai yn cael ei roi, a bod modd eu hadnewyddu yn fuan os nad ydynt yn gweithio'n foddhaol. Mae'r defnydd cywir o ddillad a chyfarpar gwarchod yn lleihau risg croes-heintio i'r eithaf. Yn ddelfrydol, ni ddylai'r, staff fynd â'u lifrai adref. Dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'l chomisiynwyr i bennu a gweithredu'r trefniadau mwyaf priodol ar gyfer glanhau lifrai yn YGAC.	Dim cyfeirnod	Dim cyfeirnod

<b>Argymhellion AGIC</b>	<b>Argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol</b>	<b>Nod Cynllun Moderneiddio YGAC</b>
6. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau y gweithredir y polisi rheoli haint ledled yr Ymddiriedolaeth a cheisio mwy o gyngor priodol lle bo angen.	Dim cyfeirnod	Dim cyfeirnod
7. Dylai'r Ymddiriedolaeth bennu ar lefel Bwrdd ac uwch-reolwyr pa wybodaeth sydd ei angen i reoli'r Ymddiriedolaeth yn strategol a gweithredol, a nodi'r gwasanaethau y bydd yn meincnodi ei pherfformiad yn eu herbyn.	1,1(a)-(f), 23(a)-(f)	2.1.2; 3.1; 1.3; 2.5.1
8. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno eu hanghenion gwybodaeth.	1,13(b), 23	2.1.2; 3.1
9. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu rôl y Cyfarwyddwr Clinigol, gosod swydd ddisgrifiad llawn-amser am y swydd a gofalu fod arweinyddiaeth glinigol ar gael ar lefel Ymddiriedolaeth, ranbarthol a lleol i gefnogi'r gwelliannau mawr sydd eu hangen mewn llywodraethu corfforaethol.	12	2.1.1
10. Dylai'r Ymddiriedolaeth ofalu bod adnoddau addas ar gael i alluogi'r Rheolwr Archwilio Clinigol Cenedlaethol I fwrw ymlaen gyda'r Strategaeth Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol.	1, 12, 13(b), 23, 25	2.1.2
11. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei rhaglen addysg a hyfforddi gyda phwyslais arbennig ar hyfforddi a datblygu l'w ddarparu i staff GGC. Rhaid seilio cynlluniau datblygu ar ADPP a rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y cyfryw adolygiadau yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd.	11(b)	2.5.6
12. Dylai'r Ymddiriedolaeth ofalu yr ymdrinnir â materion amrywiaeth wrth ddatblygu ei diwylliant, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rhywedd, hil ac anabled.	11(a)-(b), 13(a)-(f), 18	2.1.3; 2.1.2.6
13. Dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu systemau i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda'r staff ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan.	22	2.6.2

Argymhellion AGIC	Argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol	Nod Cynllun Moderneiddio YGAC
14. Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi a chynllunio ar gyfer gwelliannau yn ei hystâd a chyfleusterau er mwyn gofalu bod y staff yn gweithio mewn amgylchedd diogel lle cefnogir eu gwaith yn iawn.	8, 11(b), 16, 18	3.3
15. Dylai'r Ymddiriedolaeth ofalu bod digon o staff ar restr gwaith fel y gallant gymryd toriadau gorffwys statudol yn ystod eu gwaith ac ystyried sut y gallai trefnu addasu patrymau shifft/rota yn y tymor hir leihau'r pwysau ychwanegol ar y staff.	20	2.1.4
16. Dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau penodi i swyddi rheoli gwag ac wedi nodi'r swyddi hynny sydd yn gorfod newid neu gael eu creu dan y Strategaeth Foderneiddio, dylai lenwi'r swyddi hynny yn ddiymdroi.	12	2.4.3; 2.5.3; 2.5.4
17. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau fod ei threfn gynefino a datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer gwaith rheoli ac arwain yn ymdrin â'r angen i greu a chynnal rheolwyr sydd yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud eu gwaith yn effeithiol.	4,6(a), 6(b), 11, 13 (d), 13 (e)	2.5.3; 2.5.4; 2.1.3.6; 2.1.5.4; 2.1.6.1; 2.4; 2.5.4.7
18. Dylai'r Ymddiriedolaeth weithredu ymhellach i greu diwylliant yn YGAC fydd yn sicrhau ei gallu i gyflwyno strategaeth gyffredin, cefnogi rheolwyr gweithredol rhanbarthol a gwella ysbryd y staff.	12	2.5.5; 2.5.6; 2.5.2
19. Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal adolygiad llawn, a gychwynnwyd gan ei chynllun moderneiddio, o gyfraniad GGC yn YGAC, gan nodi'r gwerthoedd cyffredin a'r synergeddau gyda rhannau eraill y gwasanaeth, gan gynnwys yr integreiddio disgwylidig gyda Galw lechyd Cymru. Yna, dylai'r Bwrdd benderfynu'n ffurfiol ar arweinyddiaeth a rheolaeth GGC yn y dyfodol, ynghyd â'r berthynas rhwng swyddogaethau, staff a rôl GGC a GMB.	9,17(b); 19	2.3.1
20. Dylai YGAC weithredu i ofalu bod data am berfformiad clinigol o ansawdd digonol fel bod modd ei ddadansoddi'n ddefnyddiol i wella perfformiad yr Ymddiriedolaeth.	23, 25	2.1.1; 2.1.2; 2.6.1 2.5.5; 2.3.1.6

Argymhellion AGIC	Argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol	Nod Cynllun Moderneiddio YGAC
21. Dylai YGAC nodi a gweithredu proses archwilio ar gyfer meysydd clinigol allweddol a fydd yn cynhyrchu gwybodaeth ddibynadwy am ddeilliannau gofal cleifion.	23, 25	2.1.2; 2.1.2; 2.6.1; 2.2.2.2.
22. Dylai Bwrdd YGAC gytuno ar feincnodau priodol i gymharu perfformiad YGAC er mwyn amlygu manau l wella mwy ar berfformiad.	23	2.6.1
23. Dylai Bwrdd YGAC sicrhau fod adnoddau ar gael i gynyddu cyfraniad YGAC i oroesi cleifion sy'n dioddef argyfwng iechyd, megis mwy o allu l wneud thrombolysis.	1(a), 12, 24	2.5.1; 1.3
24. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei gweithdrefnau parthed cleifion bregus i gynnwys pob claf o'r fath, gan gydnabod y byddant yn cyrchu ystod lawn darpariaeth y GIG a chymdeithasol.	Dim cyfeirnod	2.3.1.10
25. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau fod trefniadau adnabod a throsglwyddo cleifion bregus rhyngddynt hwy a gofalwyr neu rannau eraill o'r GIG yn cael eu ffurfioli a'u rhedeg yn gyson ledled Cymru.	Dim cyfeirnod	2.3.1.10
26. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau adrodd cyson am ddigwyddiadau annisgwyl a gallu YGAC i ddysgu ohonynt. Y mae ymateb personol i'r staff yn un ffordd allweddol o ofalu yr adroddir am bob digwyddiad.	25	2.5.1.6; 2.5.3.3

### Esboniad o Asesiadau CGI

Ar sail tystiolaeth a gasglwyd, aseswyd pob darn o llywodraethi clinigol gan arolygwyr CGI yn erbyn pedwar gradd:

- i. Ychydig neu dim gwelliant ar lefelau strategol a chynllunio neu ar lefel gweithredi.
- ii. (a) Gwelliant teilwng a datblygiad ar lefel strategol a chynllunio ond nid ar lefel gweithredi, NEU  
  
(b) Gwelliant teilwng a datblygiad ar lefel gweithredi ond nid ar lefel strategol a chynllunio, NEU  
  
(c) Gwelliant teilwng a datblygiad ar lefel gweithredi ar lefel strategol a chynllunio a lefel gweithredi, ond nid ar draws yr holl cyfundrefn.
- iii. Gafael da strategol a gweithredi sylweddol. Cyfunioni o weithgareddau a datblygiadau ar draws lefelau strategol a chynllunio a gweithredol yr ymddiriedolaeth.
- iv. Gwych – gweithgareddau yn cyd-drefnu a datblygiadau ar draws y cyfundrefn a gyda partneriaid mudiadau yn yr economi iechedd lleol sy'n ymddangos yn arwain tuag at welliannau. Yn eglur am y rheng nesaf i ddatblygu rheolaeth clinigol.

### Esboniad o Risg Absoliwt a Pherthnasol

Yr hyn a olygwn wrth risg yw pa mor debygol yw digwyddiad. Er enghraifft gall y risg fod ceffyl yn ennill ras fod yn 5%, neu risg dyn yn cael cancr os bu'n ysmegu trwy gydol ei oes yn 16%. Risgiau absoliwt yw'r enw ar y rhain. O'u defnyddio yn y cyd-destun meddygol, maent fel arfer yn cyfeirio at debygoliaeth rhywbeth yn digwydd yn dilyn triniaeth neu wynebu rhywbeth sy'n niweidiol i iechyd. Mewn geiriau eraill, beth yw tebygoliaeth rhywun yn gwella os cymerant feddyginiaeth benodol.

Cymerwn esiampl ddamcaniaethol syml iawn i ddangos y gwahaniaeth rhwng risg absoliwt a chymharol, gan edrych ar yr igian. Gallai ymchwil fod wedi dangos mai 4% oedd y siawns i'r igian beidio wedi sioc. Gallai ymchwil arall ddangos fod 6% o gyfle i'r igian beidio petaech yn cymryd llond llwy o finegr. "Risgiau" absoliwt yw'r naill a'r llall. Maent yn golygu, petai gan 100 o bobl yr igian ac yn cael sioc, y buasech yn disgwyl i 4 ohonynt wella. Byddai disgwyl i'r finegr wella 6 o bobl.

Risg gymharol yw pan fyddwch yn cymharu'r ddwy driniaeth. Gan y byddai disgwyl i'r finegr wella 2 yn fwy o bobl - sef 50% yn fwy na'r sioc - 50% yw'r risg gymharol. Hynny yw, o gymharu â chanlyniadau'r sioc, byddai canlyniadau'r finegr 50% yn fwy.

O ran defnyddio thrombolysis mewn ambiwlans yr ydym yn cymharu faint mwy o gyfle sydd gan glaf o oroesi os gweinyddir thrombolysis o'i gymharu â phe na bai.

Mae ymchwil wedi awgrymu fod y siawns o farw petai thrombolysis yn cael ei roi mewn ysbyty yn 9.48% a bod y siawns o farw petai thrombolysis yn cael ei weinyddu cyn cyrraedd yr ysbyty yn 7.86%. Cyfraddau absoliwt yw'r rhain, ond y mae'r 7.86% 17% yn is na'r 9.48%, felly y mae'r siawns cyn mynd i'r ysbyty ryw 17% yn well na phetai'r cleifion yn gorfod aros i gael eu thromboleiddio yn yr ysbyty. Nid yw hyn yn golygu y bydd 17% yn fwy o gleifion yn goroesi os rhoddir thrombolysis yn gynt: ffordd yn unig ydyw o fesur manteision neu risgiau cymharol y ddwy driniaeth. Bydd defnyddio risg gymharol o 17% fel ffigwr risg absoliwt yn arwain at oramcangyfrif effaith thrombolysis.

Ffordd haws i feddwl am hyn yw mynd yn ôl at enghraifft yr igian. Gall finegr fod 50% yn well o ran risg gymharol na'r driniaeth sioc, ond nid yw'n golygu y bydd 50 o bob 100 o bobl yn debyg o gael eu gwella trwy ei ddefnyddio. Mae'n dal yn debygol mai 2 yn fwy yn unig o bobl gaiff eu gwella.

## Atodiad C

### Rhestr o Orsafoedd Ambiwlans YGAC yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr adolygiad

Abertawe	Llanbedr Pont Steffan
Aberhonddu	Llandochoau
Amlwch	Llanidloes
Bargod	Merthyr
Bae Colwyn	Pen-y-bont ar Ogwr
Blackweir	Pont y Pŵl
Caergybi	Porthmadog
Caernarfon	Pwllheli
Cas-gwent	Treffynnon
Castell Nedd	Tymbi
Cwmbrân	Wrecsam
Dinbych	Y Barri
Dinbych y Pysgod	Y Coed Duon
Dolgellau	Y Mynydd Bychan
Ferndale	Y Rhyl
Fflint	Yr Wyddgrug
Gelli	Ystradgynlais
Hawthorn	

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Sefydlwyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar 1 Ebrill 2004 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflawni'r Cyfrifoldebau a nodwyd gan y Cynulliad yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Sefydlwyd AGIC fel Uned yn y Cynulliad gydag annibyniaeth ffurfiol yn cael ei ddarparu trwy ddirprwyaeth a wnaed dan Ddeddf 2003 i Brif Weithredwr AGIC.

Cyfrifoldeb craidd AGIC yw cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i ddarpariaethau gofal y GIG a gyllidir naill ai gan neu dros sefydliadau'r GIG yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd a diogelwch gofal a gyllidir gan y GIG yng Nghymru, a chefnogi gwelliant parhaus i'r gofal hwnnw. Wrth wneud hynny, rhaid i AGIC roi sylw arbennig i'r canlynol:

- pa ofal iechyd sydd ar gael a sut i'w gyrchu;
- ansawdd ac effeithiolrwydd gofal iechyd;
- rheoli gofal iechyd a gofalu y'i darperir yn economaidd ac effeithlon;
- y wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd a chleifion am ofal iechyd a;
- hawliau a lles plant.

Y mae fframweithiau Llywodraethu Corfforaethol a Safonau Gofal Iechyd fel y'u gosodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ganolog i'r ffordd y mae AGIC yn asesu sefydliadau'r GIG yng Nghymru a gofal a gyllidir gan y GIG yng Nghymru.

Yn hyn o beth, mae AGIC wedi ymrwymo i'r canlynol:

- cryfhau llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd;
- gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar draws sectorau ac asiantaethau;
- gweithio gyda rheolwyr/arolygwyr eraill i ofalu bod y cyhoedd, sefydliadau'r GIG a'r Cynulliad yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ansawdd a diogelwch gofal a gyllidir gan y GIG yng Nghymru a;
- datblygu agweddau mwy effeithiol wedi eu cyd gordio tuag at adolygu a rheoleiddio'r GIG yng Nghymru.

Ar 1 Ebrill 2006, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoleiddio gofal iechyd annibynnol i AGIC o Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru dan gylch gorchwyl Deddf Safonau Gofal 2000. Mae lleoliadau gofal iechyd annibynnol yn cynnwys ysbytai aciwt, sefydliadau iechyd meddwl, lleoliadau anaesthesia deintyddol, hosbisau, practis meddygol preifat, a chlinigau lle mae'r technegau a roddir yn cynnwys laserau dosbarth 3b a 4.

Yn ychwanegol, ar 1 Ebrill 2006, yn dilyn dileu Proffesiynau Iechyd Cymru, ymgwymerodd AGIC â'r cyfrifoldeb am oruchwylio bydwreidd yn statudol a daeth hefyd i gytundeb â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) i fonitro yn flynyddol y sefydliadau addysg uwch hynny yng Nghymru sydd yn cynnig rhaglenni cydnabyddedig y CNB.

### Rhestr Termau

**aciwt** (am salwch) - tymor byr, yn dod i drobwynt yn gyflym.

**adfywiad** - amrywiad o weithdrefniadau defnyddiwyd pan byddai rhywun yn sydyn iawn mor dost y mae ei fywyd mewn perygl.

**Agenda ar gyfer Newid** - system gyflogau newydd ar gyfer staff y GIG a gyflwynwyd yn Rhagfyr 2004. Dan yr Agenda ar gyfer Newid, pennir y cyflog sylfaenol drwy ddefnyddio cynllun gwerthuso swyddi newydd i'r GIG sydd â'r amcan o sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfwerth.

**arfarnu** - asesu'r graddau y mae perfformiad rhywun yn cyrraedd y safonau neu'r amcanion sy'n ofynnol i'w swydd.

**archwilio** - yn ymwneud yn wreiddiol ag asesu cywirdeb neu uniondeb cyfrifyddu ariannol; wedi'i ymestyn bellach i gynnwys unrhyw weithgarwch asesu sy'n ceisio asesu'r graddau y mae cynnyrch/canlyniad yn bodloni'r meini prawf a osodwyd.

**archwilio clinigol** - gwerthuso a mesur gan weithwyr iechyd proffesiynol o'r graddau y maent yn cyrraedd safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaeth. Caiff gweithwyr iechyd proffesiynol neu eraill osod y safonau.

**asesu risg** - archwilio'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth neu weithdrefn benodol.

**atebolrwydd** - bod yn atebol dros ymddygiad/perfformiad.

**Bwrdd Ymddiriedolaeth** - grwp sy'n statudol gyfrifol am benderfyniadau pwysig ar strategaeth a pholisi ym mhob ymddiriedolaeth GIG. Fel arfer, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod anweithredol, prif weithredwr yr ymddiriedolaeth a'r cyfarwyddwyr.

**Byrddau Iechyd Lleol (BILlau)** - cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, drwy sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a gwasanaethau gofal eilaidd.

**caniatâd/cydsyniad** - caniatâd a roddwyd gan glaf (neu, yn achos plant dan oed, eu rhiant neu warcheidwad) i dderbyn triniaeth, archwiliad neu ymchwiliad iechyd.

**Canlyniad** - y canlyniadau y gellir eu cael o driniaeth, gwasanaeth neu raglen atal.

**canlyniad clinigol** - effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

**cleifion arbenigol** - pobl sy'n byw gyda chyflwr neu gyflyrau iechyd tymor hir cyfyngol, sy'n gallu rheoli mwy ar eu hiechyd drwy ddeall a medru rheoli eu cyflwr neu gyflyrau, gan arwain at well ansawdd bywyd.

**clinigydd/staff clinigol** - gweithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n llawn - meddyg, nyrs, therapydd, technegydd, ayb.

**Cnawdnychiant Myocardiaidd (CM)** - tolchen a ffurfiwyd yn y rhydweiliau, sydd yn caethiwo ocsigen rhag symud trwy'r galon, ac o'r diwedd yn achosi trawiad ar y galon.

**Cofnod Clinigol Claf (CCC)** - y cofnod cwblhawyd gan criwiau ambiwlans yn nodi cyflwr y claf a'r driniaeth darparwyd. Mewn Ymddiriedolaethau eraill yn y DU, cyfeiriwyd at hwn fel arfer fel y Ffurflen Cofnod Claf (Ff CC)

**comisiynu** - y broses o adnabod anghenion iechyd lleol, llunio cynlluniau gyda phartneriaid strategol i gwrdd â'r anghenion hynny, pennu gwasanaethau iechyd priodol a gwneud trefniadau gyda darparwyr gwasanaethau iechyd i sicrhau fod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi.

**Comisiwn Gwella Iechyd (CHI)** - corff cenedlaethol annibynnol (ar gyfer Cymru a Lloegr) i gefnogi a goruchwyllo ansawdd llywodraethu clinigol mewn gwasanaethau clinigol GIG. Disodlwyd CHI yn 2004 gan y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd (Y Comisiwn Gofal Iechyd).

**Comisiwn Iechyd Cymru (CIC)** - asiantaeth weithredol Cynulliad Cymru gyda'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau iechyd arbenigol ar gyfer pobl Cymru.

**cyfarwyddwr clinigol** - y clinigydd sy'n atebol dros elfennau clinigol yn y gwasanaeth a ddarperir ac weithiau elfennau rheoli.

**cyfarwyddwr meddygol** - y term a ddefnyddir fel arfer am feddyg ar lefel bwrdd ymddiriedolaeth (swydd statudol) sy'n gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â meddygon a materion meddygol a llawfeddygol drwy'r ymddiriedolaeth.

**Cyngor Iechyd Cymuned** - corff statudol y cyfeirir ato weithiau fel cyfaill y claf. Mae cynghorau iechyd cymuned yn cynrychioli budd y cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i fod yn un o'r rhai yr ymgynghorir â hwy ynghylch newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yn eu hardal. Mae Cyngor Iechyd Cymuned yn sefydliad polisi, eiriolaeth a hybu iechyd sy'n seiliedig yn y gymuned ac nad yw'n gweithredu i wneud elw. Fe'u sefydlwyd i gryfhau cyfranogiad y gymuned wrth ddiffinio polisi gwladol a lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd.

**cynllun gweithredu** - amserlen o dasgau a gytunwyd sydd â'r bwriad o ddelio â set benodol o broblemau; yng nghyd-destun arolygiad, un sydd â'r bwriad o ymateb i'w argymhellion.

**cynnwys y claf** - y graddau y gall y claf (neu'r cleifion) gyfrannu i'w ofal neu driniaeth. Defnyddir y term yn aml i ddisgrifio'r modd y gall cleifion newid neu fynegi barn am y dull o ddarparu neu gynllunio gwasanaeth.

**dangosyddion cenedlaethol** - ystadegau a gofnodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar amrediad o driniaethau penodol fel y gellir cymharu a mesur perfformiad cyrff GIG.

**Datblygiad Personol a Phroffesiynol Parhaus (DPPP)** - proses ddysgu barhaus sy'n ategu addysg a hyfforddiant i israddedigion ac uwchraddedigion.

**dialysis** - Proses artiffisial lle bod cynnyrch a dyfroedd gwastraff yn cael eu tynnu o'r gwaed.

**diwylliant o beidio â bwrw bai** - ceir hyn pan fo sefydliad yn creu amgylchedd dysgu fel bod staff yn teimlo'n gyfforddus yngl\_ n â dweud pan fo pethau wedi mynd o chwith am eu bod yn gwybod na chânt eu beio am y camgymeriad, ond yn hytrach eu hannog i ddysgu ac osgoi hynny rhag digwydd eto.

**digwyddiad clinigol** - digwyddiad mewn ysbyty neu yn y gymuned y gall cleifion neu'r cyhoedd brofi niwed gwirioneddol neu bosibl o ganlyniad iddo.

**dychweliad cylchrediad digymell (ROSC)** - term defnyddiwyd i ddynodi adennill ffrwythiant y galon yn dilyn ymyriad gyda chlaf sydd wedi dioddef trawiad ar y galon.

**effeithiolrwydd clinigol** - yn achos unigolion, mae'n golygu'r graddau y mae triniaeth yn sicrhau'r gwelliant mewn iechyd a fwriadwyd ar gyfer claf. Yn achos cyrff, mae'n golygu'r graddau y mae'r corff yn sicrhau bod yr 'arferion gorau' wedi'u defnyddio lle bynnag y bo modd a bod canlyniadau clinigol yn cyfateb i feincnodau priodol.

**fframwaith gwasanaeth a chyllid** - y cytundebau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff GIG sy'n rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad rhwng y cyrff hynny.

**fframwaith gwybodaeth a sgiliau** - cyfarwyddiadur o wybodaeth a sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi yn y GIG. Mae'r Fframwaith yn offeryn gwerthfawr sy'n helpu i ganfod yr angen am hyfforddiant a datblygiad er mwyn sicrhau bod yr unigolyn wedi'i ddatblygu'n llawn yn ei swydd. Mae hefyd yn helpu unigolion i ganfod sut y gallent hyrwyddo eu gyrfa.

**fframwaith gwasanaeth cenedlaethol** - canllawiau a safonau ar gyfer rheoli a thrin mathau penodol o glefyd a salwch.

**Gofalwyr** - rhai sy'n gofalu am eu perthnasau a'u ffrindiau heb dderbyn tâl, a hynny'n aml yn lle nyrs.

**gofal eilaidd** - gofal iechyd arbenigol, a ddarperir fel arfer yn yr ysbyty, ar ôl atgyfeiriad gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

**gofal sylfaenol** - gwasanaethau iechyd teuluol a ddarperir gan feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optegwyr, ac eraill fel nyrsys cymunedol, ffisiotherapyddion a rhai gweithwyr cymdeithasol.

**gofal trydyddol** - gwasanaethau a ddarperir gan ysbytai neu adrannau arbenigol cysylltiedig yn aml. Maent yn trin cleifion â chyflyrau cymhleth sydd wedi eu cyfeirio fel arfer gan ysbytai eraill neu arbenigwyr.

**goruchwyliaeth glinigol** - proses ffurfiol o gymorth a dysgu proffesiynol sy'n galluogi ymarferwyr unigol i ddatblygu arferion a gwella'r amddiffyniad i gleifion a diogelwch mewn gofal mewn sefyllfaoedd clinigol cymhleth.

**Gwasanaethau Gofal Claf (GGC)** – defnyddiwyd y term yma gan YGAC am wasanaethau adnabyddwyd yn weddill y DU fel gwasanaethau cludo cleifion . Hwn yw gangen y gwasanaeth ambiwlans sydd yn darparu trafndiaeth i glinigau cleifion allanol, canolfannau triniaeth diwrnod a.y.y.b

**Gwasanaethau Meddygol Brys (GMB)** - cangen gwasanaeth ambiwlans yn ymateb i alwadau argyfwng o'r cyhoedd a cheisiadau brys gan Ymarferyddion Gyffredinol.

**gwybodaeth glinigol** - (1) Gwybodaeth am driniaethau a roddir i glaf gan weithiwr iechyd proffesiynol. (2) Gwybodaeth am arferion clinigol y mae corff yn ei chasglu i ddibenion rheoli.

**llywodraethu clinigol** – “Fframwaith y mae cyrff GIG yn atebol drwyddo dros wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus a diogelu safonau gofal uchel drwy greu amgylchedd lle y bydd gofal clinigol rhagorol yn ffynnu” (Y Swyddfa Gymreig: 'Gofal Safonol a Rhagoriaeth Glinigol').

**meincnodi** - cymharu arferion neu berfformiad â'r rhai mewn cyrff eraill, gyda'r amcan o ganfod ac efelychu'r arferion gorau.

**monitro perfformiad** - system sy'n casglu ac yn dadansoddi'r graddau y mae gwasanaeth neu weithdrefn benodol yn cyrraedd targedau neu safonau.

**rhanddeiliaid** - defnyddir hyn i gynnwys amrediad mawr o bobl a sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan, neu sydd â budd yn y gwasanaethau a gynigir gan y sefydliad. Mae'n cynnwys cleifion, gofalwyr, staff, undebau, mudiadau gwirfoddol, Cynghorau Iechyd Cymuned, Awdurdodau Lleol, staff gofal sylfaenol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG.

**risg clinigol** - risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol driniaethau gofal iechyd.

**rheoli heintiau** - set o weithdrefnau i atal lledaeniad heintiau a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio cyfarpar di-haint, ayb.

**rheoli perfformiad** - defnyddio proses adolygu, gan ganolbwyntio ar safonau ac amcanion, i asesu pa mor dda y mae person, tîm neu wasanaeth yn gweithio.

**rheoli risg clinigol** - deall y gwahanol lefelau risg sy'n gysylltiedig â phob math o driniaeth a chymryd camau systematig i leihau'r risgiau.

**rhyddid gwybodaeth** - hawl unigolion i weld gwybodaeth sydd wedi'i dal gan gyrff cyhoeddus, yn amodol ar rai eithriadau. Mae'r hawliau wedi'u nodi yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Clinigol (NICE)** - awdurdod iechyd arbennig sy'n paratoi arweiniad i'r GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

**system hysbysu am ddigwyddiadau** - trefniadau ar gyfer cofnodi digwyddiadau anffafriol a'u dwyn i sylw rheolwyr sy'n gyfrifol am eu dileu neu eu lleihau.

**Swyddfa Awdit Cymru (WAO)** - Swyddfa'r Archwilydd Gyffredinol i Gymru gyda chyfrifoldeb am ystod eang o archwiliadau ariannol, gwerth arian a adolygiadau eraill yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Swyddog Ambiwllans Cymdogaeth (SAC)** - rheolwr lleol gyda'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau'r YGAC.

**technoleg a rheoli gwybodaeth** - y strwythurau a'r systemau y bydd corff yn eu defnyddio i reoli data a gwybodaeth er mwyn ymateb i'r heriau y mae'n eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau a sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel.

**thrombolysis** - y torri lawr o dolchen o fewn rhydweli neu wythïen trwy driniaeth feddygol.

**y galon, cardioleg** - ymwneud â'r galon; y gangen o ffeddygaeth sy'n ymwneud â'r galon a'i chlefydau

**Ymddiriedolaeth GIG** - corff hunanlywodraethol yn y GIG sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'n cyflogi pob math o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, therapyddion, ayb.

**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST)** - yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am ddarpariaeth ystod eang o wasanaethau ambiwlans dros Gymru.

## **Diolchiadau**

Dymuna AGIC ddiolch i'r Cadeirydd, i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, ac yn arbennig Alun Murray, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru am ei gydweithrediad.

Dymuna AGIC ddiolch i'r tîm o arolygwyr allanol a ddefnyddiwyd gan AGIC, sef:

David Griffiths  
Bernard Horan  
Dr Charles Deakin  
Kathy Jones  
Pat O'Meara  
Colette Eames  
Ian Stamp  
Jane Holford  
Yvonne Rose  
Zaffron Shahzada  
Jenny Hepworh  
Richard Young  
Ridwan Kennedy  
Andrew Popplewell.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sydd â'r unig gyfrifoldeb am gynnwys yr adroddiad hwn.